

Agenda – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideo	Sarah Beasley
gynadledda drwy Zoom	Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Iau, 26 Medi 2024	0300 200 6565
Amser: 12.30	Seneddlechyd@senedd.cymru

Mae'r cyfarfod hwn yn dilyn y digwyddiad rhanddeiliaid preifat fel rhan o'n hymchwiliad i feddygaeth deulu

Cyfarfod cyhoeddus

(12.30)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(12:30)

2 Papurau i'w nodi

(12.30)

2.1 Llythyr gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

(Tudalennau 1 – 17)

2.2 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

(Tudalennau 18 – 19)

2.3 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch canserau gynaecelegol

(Tudalen 20)

2.4 Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch canserau gynaecelegol

(Tudalen 21)



- 2.5 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynnyddoedd Cynnar ynghylch gofal iechyd mewn carchardai**
(Tudalennau 22 – 25)
- 2.6 Ymateb gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynnyddoedd Cynnar ynghylch gofal iechyd mewn carchardai**
(Tudalennau 26 – 32)
- 2.7 Llythyr gan Arolygiaeth Gofal Cymru ynghylch Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)**
(Tudalennau 33 – 34)
- 2.8 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Gofal Cymdeithasol ynghylch Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)**
(Tudalennau 35 – 37)
- 2.9 Ymateb gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)**
(Tudalennau 38 – 52)
- 2.10 Llythyr gan y Prif Swyddog Fferyllol at Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch y Cynllun Peilot Paru Data Fferylliaeth Gymunedol**
(Tudalennau 53 – 56)
- 2.11 Ymateb dilynol gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru i Waith Craffu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Chyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru**
(Tudalennau 57 – 60)
- 2.12 Llythyr at Addysg a Gwellu Iechyd Cymru ynghylch cyflyrau cronig**
(Tudalen 61)
- 2.13 Ymateb gan Addysg a Gwellu Iechyd Cymru ynghylch cyflyrau cronig**
(Tudalennau 62 – 64)
- 2.14 Llythyr at Gomisiynydd Plant Cymru ynghylch Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)**
(Tudalennau 65 – 66)

**2.15 Ymateb gan Gomisiynydd Plant Cymru ynghylch Bil Iechyd a Gofal
Cymdeithasol (Cymru)**

(Tudalennau 67 – 69)

2.16 Llythyr at yr NSPCC ynghylch Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

(Tudalennau 70 – 71)

2.17 Ymateb gan yr NSPCC ynghylch Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

(Tudalennau 72 – 74)

**3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn**

(12.30)

Cyfarfod preifat

(12.30–14.00)

**4 Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru): trafod yr adroddiad
drafft**

(12.30–14.00)

Papur 1 – adroddiad drafft

Sam Rowlands AS
Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

18 Gorffennaf 2024

Ynghylch: Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Annwyl Sam,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 20 Mehefin 2024, gweler Atodiad A i gael gwybod ein barn ar y darpariaethau hynny ym Mil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ("y Bil") yr ydym wedi casglu tystiolaeth yn eu cylch yn ystod y Chweched Senedd. Dylwn dynnu sylw at y ffaith bod unrhyw farn a glywsom am gyfyngu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yn ymwneud â'r cynlluniau yn y parth cyhoeddus ar y pryd (hydref 2022 i haf 2023) ynghylch bwriad polisi Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â'n safbwyntiau a amlinellir yn Atodiad A ar ddarpariaethau perthnasol yn y Bil, rydym yn credu bod angen diwygio'r system ofal yn radical mewn meysydd sydd o fewn cwmpas eang y Bil, ond nad ydynt yn cael sylw ynddo ar hyn o bryd. Mae'r meysydd polisi a nodir yn Atodiad B yn ymwneud yn uniongyrchol â naill ai lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a/neu reoleiddio'r gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac felly gellid ystyried yn rhesymol eu bod yn dod o fewn cwmpas y Bil. Rydym yn credu y dylent fod wedi cael eu cynnwys yn y Bil i roi effaith i'r newidiadau radical i'r system ofal y mae plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'u teuluoedd yn eu haeddu.

Rwy'n gobeithio y bydd ein barn yn ddefnyddiol i chi wrth i chi ddod i gasgliadau am y Bil yn eich adroddiad Cyfnod 1.

Yn gywir,

Buffy Williams AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad A: Ein barn ar ddarpariaethau ym Mil lechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) sy'n berthnasol i'n gwaith yn ystod y Chweched Senedd

Pennod 1: Cyfyngiadau ar elw wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant

Cyfyngu ar wneud elw wrth ddarparu gwasanaethau cartrefi gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu ("gwasanaethau plant o dan gyfyngiad")

Mae adrannau 2 i 9 o'r Bil yn rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir i blant, gan gynnwys:

- diwygio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") i fewnosod darpariaeth newydd sy'n diffinio ystyr "gwasanaethau plant o dan gyfyngiad" at ddibenion cyfyngu ar wneud elw gan ddarparwyr gwasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu;
- diwygio Deddf 2016 i nodi gofynion newydd ar gyfer ceisiadau i gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad;
- gwneud trefniadau trosiannol ar gyfer darparwyr presennol gwasanaethau plant o dan gyfyngiad (a oedd wedi'u cofrestru cyn cyflwyno'r gofynion 'nid-er-elw' newydd).¹

Ni wnaeth ein hymchwiliad i ddiwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ystyried yn fanwl fwriad Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Roedd ein gwaith yn canolbwyntio ar ymrwymiad ar wahân y Rhaglen Lywodraethu i "ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal."² Fodd bynnag, er nad oedd yn dod o fewn cylch gorchwyl yr ymchwiliad, cafodd yr ymrwymiad i "D[d]ileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal" ei godi'n aml serch hynny gan yr unigolion a'r sefydliadau a gyfrannodd at ein hymchwiliad.

Clywsom gefnogaeth gyffredinol i gael gwared ar elw o ofal plant, yn enwedig gan bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal eu hunain.³ Roedd cefnogaeth eang ymhlith gweithwyr proffesiynol,

¹ Llywodraeth Cymru, 'Bil lechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) [FEL Y'I CYFLWYNWYD]', 20 Mai 2024

² Llywodraeth Cymru, 'Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad', Ionawr 2022, tudalen 3

³ Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru; Senedd Cymru, 'Pwyllgor', Mawrth 2023, tudalen 23



academyddion a sefydliadau hefyd o ran bwriad y polisi. Fodd bynnag, roedd ganddynt bryderon sylweddol ynghylch sut y gellid ei roi ar waith. Clywsom y byddai newidiadau i'r farchnad gofal cymdeithasol ar y raddfa hon yn cymryd 10 i 15 mlynedd i'w gweithredu, ac y gallai cael gwared ar leoliadau sy'n gwneud elw cyn bod digon o leoliadau nid-er-elw yn ei gwneud hi'n anoddach fyth dod o hyd i leoliadau addas i blant.⁴

Daethom i'r casgliad i gefnogi'r *egwyddor* o ddileu elw o ofal plant. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y dystiolaeth a gawsom yn dangos y gallai'r agenda 'dileu' waethygu digonolrwydd lleoliadau yng Nghymru ymhellach yn y tymor byr, wrth i ddarparwyr preifat dynnu lleoliadau yn ôl heb fod lleoliadau trydydd sector neu awdurdodau lleol ar gael i gymryd eu lle. Gwnaethom annog Llywodraeth Cymru i roi sylw manwl i'r pryderon y mynegodd randdeiliaid i ni ac i gynllunio amserlen weithredu yn unol â hynny.⁵

Rydym yn nodi, yn ôl Memorandwm Esboniadol y Bil, y bydd yn rhaid i ddarparwyr newydd sy'n cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru fod â statws nid-er-elw o 1 Ebrill 2026 ymlaen, ac y bydd yr holl ddarparwyr presennol sy'n gwneud elw yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol o 1 Ebrill 2027 ymlaen.⁶ Rydym hefyd yn nodi bod y Bil yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori ag "unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy" ynghylch hyd y trefniadau trosiannol ar gyfer darparwyr presennol.⁷

Casgliad 1. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gawsom, ein barn ni yw y byddai terfyn amser o 1 Ebrill 2027 i ddarparwyr presennol sy'n gwneud elw drosglwyddo i fod yn ddarparwyr nid-er-elw yn gwbl annigonol i liniaru'n llawn yn erbyn yr holl risgiau o leoli pob plentyn mewn lleoliadau gofal nid-er-elw llawn. Felly, rydym yn croesawu'r darpariaethau yn adran 4 o'r Bil, sy'n caniatáu i drefniadau trosiannol gael eu nodi mewn rheoliadau ar gyfer darparwyr presennol sy'n gwneud elw drosglwyddo i statws nid-er-elw. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad oes dyddiad gorffen penodol ar gyfer y trefniadau trosiannol hynny. Mae'n bwysig i'r sector yn gyffredinol - heb sôn am blant a phobl ifanc yn y system ofal, sydd â'r hawl i wybod pwy sy'n darparu eu gofal ac a ydynt yn elwa o wneud hynny - i gael eglurder ynghylch y dyddiad erbyn pryd y bydd elw yn cael ei ddileu o ofal plant. Felly, rydym yn annog Llywodraeth i nodi'n glir ddyddiad gorffen ar gyfer y trefniadau trosiannol, ar ôl ymgynghori'n llawn ac mewn modd adeiladol yn gyntaf gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid

⁴ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 24; Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Chwefror 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 83; Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 73; Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 14

⁵ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 107-108

⁶ Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Esboniadol Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)', Mai 2024, tudalen 148

⁷ Llywodraeth Cymru, 'Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) [FEL Y'I CYFLWYNWYD]', 20 Mai 2024, paragraff 1(4) o'r Atodlen 1A newydd yn adran 4



allweddol eraill er mwyn sicrhau nad yw diffyg lleoliadau nid-er-elw yn gwthio plant i lety anghofrestredig nad yw'n ddiogel.

Lleoli plant y tu allan i ardal yr awdurdod lleol sy'n lleoli plant

Mae adran 10 yn diwygio adran 75 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") i bennu bod rhaid i awdurdod lleol gymryd "pob cam rhesymol i sicrhau" llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn hytrach na "chamau sy'n sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol" fel y nodir ar hyn o bryd o dan Ddeddf 2014. O dan is-adran 1, mae'n ofynnol i'r llety hwn fod "o fewn ardal yr awdurdod, neu'n agos iddi" yn hytrach na'r gofyniad presennol iddo fod "yn ardal yr awdurdod".⁸

Mae Memorandwm Esboniadol y Bil fel y'i cyflwynwyd yn egluro'r bwriad polisi ar gyfer y newid hwn:

*Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i wneud trefniadau gydag awdurdodau lleol eraill i ddatblygu cartrefi plant newydd a lleoliadau gofal maeth newydd. Mae'n cydnabod y gall amgylchiadau godi pan all plentyn sydd wedi ei leoli y tu allan i ardal yr awdurdod lleol fod yn agosach at ei gymuned gartref na phe bai'n cael ei leoli mewn rhan wahanol o ardal yr awdurdod lleol."*⁹

Rydym yn cefnogi unrhyw newidiadau deddfwriaethol i ganiatáu i awdurdodau lleol wneud y penderfyniad cywir ar gyfer pob plentyn ar sail unigol. Rydym yn gwerthfawrogi efallai mai lleoli plant y tu allan i'w hawdurdod lleol yw'r penderfyniad cywir, er enghraifft os yw'r canlynol yn berthnasol:

- Y lleoliad y tu allan i'r ardal yw'r lleoliad ansawdd uchel agosaf i gartref y plentyn. Yn ystod ein hymchwiliad yn 2023, clywsom yn gyson gan blant a gweithwyr proffesiynol y dylid lleoli plant mor agos â phosibl at y man lle y cafodd y plentyn ei roi mewn gofal, oni bai bod risg difrifol i ddiogelwch y plentyn drwy wneud hynny.¹⁰ Dywedodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym "There's not one children's services department across Wales that will say that that isn't an absolute priority [but that] Finding those placements is difficult."¹¹
- Mae pryderon o ran diogelwch y plentyn yn ei awdurdod cartref. Gallai hyn fod oherwydd bod y plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin (yn emosiynol neu fel arall) neu gael ei

⁸ Llywodraeth Cymru, 'Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) [FEL Y'I CYFLWYNWYD]', 20 Mai 2024

⁹ Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Esboniadol Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)', Mai 2024, tudalen 170

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC39 Tystiolaeth gan Plant yng Nghymru, gydag aelodau o'r Grŵp Polisi Elusennau Plant Cenedlaethol, ac ar eu rhan; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC43 Cymdeithas y Plant

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC39 Tystiolaeth gan Plant yng Nghymru, gydag aelodau o'r Grŵp Polisi Elusennau Plant Cenedlaethol, ac ar eu rhan; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 43 Cymdeithas y Plant



ecsbloetio.¹² Yn ein hymchwiliad presennol, 'plant sydd ar yr ymylon', rydym yn clywed yn rheolaidd am blant sy'n cael eu symud allan o'u hawdurdod cartref lleol (neu hyd yn oed rhwng Cymru a Lloegr) i'w cadw i ffwrdd o weithgarwch troseddol, neu i'w hamddiffyn lle mae risg uniongyrchol i fywyd y plentyn.¹³

Fodd bynnag, mae rhesymau fel hyn yn debygol o fod yn berthnasol i gyfran fach o blant. I'r rhan fwyaf, dylid osgoi lleoliadau y tu allan i'r ardal lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Yn ein hymchwiliad yn 2023, roedd llawer o'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod plant yn aml yn cael eu lleoli ymhell o'u cartref neu mewn lleoliadau blaenorol nid oherwydd ei fod er lles gorau'r plentyn i wneud hynny, ond oherwydd nad oedd unrhyw leoliadau o ansawdd yn ei ardal leol.¹⁴ Yn ystod gwaith ymgysylltu, dywedodd un person ifanc o Abertawe wrthym ei fod wedi cael ei roi mewn cartref preswyl yn Lloegr. Nid oedd ganddo ddim cefnogaeth o gwbl mor bell oddi wrth bawb yr oedd yn ei adnabod. Dywedodd wrthym ei fod yn teimlo fel "un o'r rhai sydd wedi cael ei anghofio".¹⁵

Beth bynnag yw'r rheswm dros leoliad y tu allan i'r ardal, a pha mor bell ydyw o gymuned gartref y plentyn, gall gwaith amlasiantaethol gwael a methiant i ddilyn gweithdrefnau adrodd sefydledig roi unrhyw blentyn mewn lleoliad y tu allan i'r ardal mewn perygl o niwed. Cyflwynodd Cymdeithas y Plant dystiolaeth fanwl yn egluro beth mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud os ydynt yn lleoli plentyn mewn ardal awdurdod lleol arall. Mae hyn yn cynnwys cwblhau a rhannu Protocol Hysbysu y Tu Allan i'r Ardal Cymru a Ffurflen Gwybodaeth Plentyn ar gyfer pob plentyn, sy'n nodi gwybodaeth hollbwysig, gan gynnwys manylion gweithiwr cymdeithasol y plentyn ac unrhyw anghenion penodol sydd gan y plentyn, neu risgiau yn ymwneud â'r plentyn. Daeth Cymdeithas y Plant i'r casgliad a ganlyn:

"The primary finding from the responses we received from local authorities was the lack of a consistent approach to information sharing when a child is placed in another local authority area, or the lack of information sharing at all. These practices mean that some children do not receive the care and support they need when they are placed in a care setting far away from their homes, thereby increasing the risk both of unsuccessful placements and children not receiving

¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC43 Cymdeithas y Plant; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC7 Rhiant Maeth; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC1 Voices from Care Cymru

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM28 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru. Rydym wedi cael tystiolaeth arall o'n digwyddiadau rhanddeiliaid a'n hymweladau ymgysylltu. Bydd crynodebau o ganfyddiadau'r digwyddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi yn fuan.

¹⁴ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Chwefror 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 9 ac 19-20; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC3 Unigolyn; Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol); Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 23-25

¹⁵ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 23

appropriate support if they face particular risks, such as abuse, exploitation, or a history of missing episodes.”¹⁶

Cawsom ein hatgoffa gan Plant yng Nghymru, gydag aelodau o'r Grŵp Polisi Elusennau Plant Cenedlaethol, ac ar eu rhan, am ganlyniadau trasig methu â chyflawni cyfrifoldebau rhannu gwybodaeth yn ddigonol. Roedd eu cyflwyniad ysgrifenedig yn ein hatgoffa bod yr adolygiad ymarfer plant yn dilyn marwolaeth Logan Mwangi wedi canfod problemau ymarfer sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn lleol, gan gynnwys diffyg trefniadau priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a diffyg hyder proffesiynol wrth adrodd am bryderon.¹⁷

Casgliad 2. Rydym yn pryderu ynghylch sut y bydd y darpariaethau a nodir yn adran 10 yn cael eu dehongli a'u gweithredu, yn enwedig yng nghyd-destun yr agenda ddileu ehangach, yr ydym yn ofni y bydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar nifer y lleoliadau sydd ar gael. Byddai gennym bryderon difrifol pe bai'r darpariaethau yn adran 10 yn arwain at fwy o blant yn cael eu lleoli y tu allan i'w hardal gartref. Y safbwynt hollbresennol ar draws y dystiolaeth yr ydym wedi'i chymryd yn ystod ein hymchwiliad yn 2023 a'n hymchwiliad presennol, 'plant sydd ar yr ymylon', yw bod lleoliadau y tu allan i'r ardal, i'r rhan fwyaf o blant, yn cynyddu'r risg y bydd plant yn mynd ar goll, yn cael eu troseddoli neu'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol, heb sôn am y ffaith bod lleoliadau y tu allan i'r ardal yn ei gwneud hi'n anoddach iddynt gynnal perthynas â'u teulu biolegol neu ffrindiau neu osgoi'r angen i symud ysgolion.

Hyd yn oed pan fo'n benderfyniad cywir i leoli plentyn mewn awdurdod lleol gwahanol, **rhaid** i awdurdodau lleol ddilyn y rheoliadau a'r canllawiau sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth yn gyson er mwyn sicrhau nad yw bod mewn lleoliad y tu allan i'r ardal yn peryglu ansawdd y gwasanaeth diogelu a ddarperir i unrhyw blentyn.

Lleoli plant mewn llety anghofrestredig

Mae adran 13 yn nodi'r ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya. Mae Nodyn Esboniadol y Bil yn nodi y gall lleoliad fod "mewn llety anghofrestredig (dros dro neu mewn achosion brys)".¹⁸ Nodir y mecanweithiau ar gyfer lleoli plant yn adran 13(3), sy'n mewnosod adrannau 81A i 81D yn Neddf 2014.

- Mae adran 81A(2) yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol leoli plentyn yn y lleoliad mwyaf priodol, yn ei farn ef. Mae adran 81A(3) wedyn yn nodi ystyr lleoliad yn y cyd-destun hwnnw, gan gynnwys lleoliad gyda rhiant maeth awdurdod lleol neu mewn cartref plant.

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC43 Cymdeithas y Plant

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC39 Plant yng Nghymru, gydag aelodau o'r Grŵp Polisi Elusennau Plant Cenedlaethol, ac ar eu rhan

¹⁸ Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Esboniadol Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)', Mai 2024, tudalen 165



- Mae adran 81A(4) yn nodi bod yn rhaid i riant maeth awdurdod lleol sy'n darparu lleoliadau nad yw'n ffrind, yn berthynas neu'n gysylltiedig fel arall â'r plentyn fod wedi'i awdurdodi, a bod rhaid i gartrefi plant gael eu "cofrestru".
- Fodd bynnag, mae 81B(1) a (2) yn nodi, os yw awdurdod lleol yn credu mai'r lleoliad mwyaf priodol yw gyda rhiant maeth awdurdod lleol neu gartref plant, ond na all yr awdurdod lleol gydymffurfio â'r gofyniad i'r lleoliad gael ei awdurdodi neu ei gofrestru yn y drefn honno, gallant wneud cais i Weinidogion Cymru i gymeradwyo'r lleoliad. Gelwir lleoliadau o'r fath yn "lleoliadau atodol". Mae'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn cais o'r fath, a darpariaethau ynghylch sut y gallai Gweinidogion Cymru ymateb, yn dilyn yn is-adrannau (3) i (8).

Mae adran 75D newydd o Ddeddf 2014 sydd i'w mewnosod gan adran 12 o'r Bil, yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad ar nifer y ceisiadau y maent wedi'u gwneud yn y flwyddyn ariannol honno am gymeradwyaeth i leoli plant mewn "lleoliad atodol".¹⁹

Mae'r adrannau hyn sydd wedi cael eu mewnosod yn ddiweddar yn darparu ar gyfer ffordd y gall awdurdodau lleol leoli plentyn gyda gofalwr maeth heb ei awdurdodi, neu gartref plant heb anghofrestredig, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Nid oes terfyn amser gofynnol ar gyfer cyflwyno'r gymeradwyaeth hon ar wyneb y Bil.

Ein pryderon cyffredinol ynghylch y darpariaethau sy'n ymwneud â lleoliadau anghofrestredig yn y Bil

Mewn llythyr atoch dyddiedig 28 Mehefin 2024, dywedodd y Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol:

Y bwriad [o adran 13] oedd cyfeirio at lety lle nad oes unrhyw ofyniad i gofrestru gan nad yw'r lleoliad gyda gofalwr maeth a chan fod y trefniadau y tu hwnt i'r diffiniad o wasanaeth "cartref gofal". Mae amrywiaeth o amgylchiadau lle y gall awdurdod lleol benderfynu lleoli plentyn mewn lleoliad heblaw gofal maeth neu gartref i blant. Yr enghraifft fwyaf cyffredin o hyn yw pan fydd awdurdod lleol yn gosod plentyn hŷn 16 neu 17 oed mewn llety â chymorth fel paratoad ar gyfer byw'n annibynnol.

Rydym yn ymwybodol bod defnydd mwy diweddar o'r termau "llety anghofrestredig" a "llety heb ei reoleiddio" wedi tueddu i wahaniaethu rhwng y ddau beth. Mae'r term llety anghofrestredig yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at drefniadau sy'n dod o fewn cwrdd gweithgarwch lle mae gofyniad i gofrestru ond lle nad yw'r darparwr wedi'i gofrestru mewn gwirionedd ac mae llety heb ei

¹⁹ Llywodraeth Cymru, 'Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) [FEL Y'L CYFLWYNWYD]', 20 Mai 2024



*reoleiddio yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at drefniadau sy'n disgyn y tu allan i gwmpas gweithgarwch a reoleiddir ac felly lle nad oes angen cofrestru. Nid dyna ystyr "anghofrestredig" yma."*²⁰

Fodd bynnag, nid yw adran 13 yn cyfeirio at lety "lle nad oes unrhyw ofyniad i gofrestru" (i'r gwrthwyneb, mewn gwirionedd: mae adran 81A(4) sydd wedi'i mewnosod yn ddiweddar yn nodi'n benodol y dylai gofalmwyr maeth awdurdodau lleol gael eu hawdurdodi ac y dylid cofrestru cartrefi plant). Nid yw ychwaith yn cyfeirio at blant 16-17 oed yn benodol. Nid yw'n gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd rhwng llety lle mae angen cofrestru/awdurdodi a phan nad yw'n berthnasol.

Ar adeg ysgrifennu hwn, mae'r defnydd o lety anghofrestredig ar gyfer plant mewn gofal yn anghyfreithlon. Yn ystod ein hymchwiliad yn 2023, nododd Arolygiaeth Gofal Cymru fod lleoliadau anghofrestredig:

*"...yn anghyfreithlon ac nid oes ganddynt y mesurau diogelu ar waith sy'n dod gyda chofrestru. Yn aml mae awdurdodau lleol yn gweithredu'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol, gan adleoli eu staff eu hunain iddynt neu ddefnyddio gweithwyr asiantaeth. Mae llety yn cynnwys llety AirBnB sydd, mewn rhai achosion, wedi golygu bod plant wedi gorfod symud sawl gwaith o'r naill eiddo i'r llall. Ar adegau, mae'r lleoliadau hyn wedi bod y tu allan i ardal leol y plentyn ac mae llawer o leoliadau na allant ddiwallu eu hanghenion therapiwtig a/neu ofal. Ym mhob achos mae AGC yn ystyried a yw'r trothwy ar gyfer cynnal ymchwiliad troseddol ac erlyn wedi'i fodloni gan gydnabod, ar yr un pryd, ddyletswydd yr awdurdod lleol i ofalu am y plentyn."*²¹

Clywsom hefyd bryder wedi'i eirio'n gryf am y defnydd o leoliadau anghofrestredig yng Nghymru, gan gynnwys gan CAFCASS Cymru²² a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Gymdeithasol:

*"In 35 years in social care, I've never seen a position like this, and it's frightening... Nobody wants to do this, it is a last resort. The alternative is driving around with the child in the social worker's car."*²³

Felly, gwnaethom argymhell y dylai Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Gymdeithasol gyhoeddi ar y cyd, heb fod yn hwyrach na mis Rhagfyr 2023, gynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddant yn atal y defnydd o lety anghofrestredig anghyfreithlon yng Nghymru. Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen awdurdodau

²⁰ 'Llythyr gan y Gweinidog Gofal Gymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Gymdeithasol', 28 Mehefin 2024, tudalen 10

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol)

²² Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 46 Cafcass Cymru

²³ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Mawrth 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 69 a 71

lleol i ystyried y mater o wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru o dan ei Bwrdd Rhaglen Dileu Elw, y mae disgwyl iddo adrodd yn ddiweddarach yn 2023.²⁴ Hyd yn hyn, nid ydym yn ymwybodol bod adroddiad wedi cael ei gyhoeddi gan y grŵp. Fodd bynnag, canfu adroddiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Hydref 2023 am gartrefi gofal plant sy'n gweithredu heb gofrestrriad:

Er bod rhai plant yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn gwasanaethau dros dro sy'n gweithredu heb gofrestrriad, nid yw'r un peth yn wir am eraill...

Yn aml, nid yw'r safleoedd a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau anghofrestredig a/neu safon y trefniadau a wneir i blant yn cyrraedd y safonau gofynnol i gael eu cofrestru.

Mewn sawl achos, bu'r trefniadau staffio i ddarparu gofal a chymorth ar sail ad hoc ac yn newidiol iawn. Mae'r ffaith bod staff nad ydynt wedi'u hyfforddi i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y plentyn neu'r person ifanc a'r ddibyniaeth ormodol ar staff asiantaeth yn peri pryder penodol."²⁵

Defnyddio Gorchmynion Amddifadu o Ryddid (DoLs) ochr yn ochr â lleoliadau anghofrestredig

Yn ein hadroddiad yn 2023, 'Os nad nawr, pryd?' ("ein hadroddiad 2023"), gwnaethom nodi gysylltiad rhwng prinder llety diogel a'r defnydd cynyddol o Orchmynion Amddifadu o Ryddid (DoLs).

Dywedodd y Gwir Anrhydeddus Syr Andrew McFarlane, Llywydd yr Is-adran Teuluoedd, wrthym fod diffyg darpariaeth llety diogel i bobl ifanc yng Nghymru a Lloegr, a bod hwnnw'n brinder dybryd.²⁶ Esboniodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol y gallai awdurdodau lleol weithiau ffafrio DoL yn lle llety diogel oherwydd, o leiaf wrth ddefnyddio amddifadu o ryddid, y byddai plant yn cael eu cadw'n lleol ac yn eu cadw mewn amgylchedd sydd o bosibl yn fwy diogel, yn hytrach na'u bod yn gorfod mynd o bosibl i lety diogel yn Durham.²⁷

Rydym yn ofni y gallai'r arfer o wneud cais am DoL ar gyfer plentyn a'i roi mewn llety anghofrestredig gynyddu o ganlyniad uniongyrchol i'r Bil hwn. Gall awdurdod lleol leoli plentyn sy'n destun DoL mewn gofal preswyl, ond os nad yw lleoliad gofal preswyl ar gael efallai na fydd gan yr awdurdod lleol unrhyw ddewis ond lleoli'r plentyn mewn llety anghofrestredig.²⁸ Rydym yn mynegi pryder uchod y

²⁴ Llywodraeth Cymru, 'Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dwyn y teitl "Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', 5 Gorffennaf 2023, tudalennau 16-17. Cyfeirir at y grŵp gorchwyl a gorffen yma: Llywodraeth Cymru, 'Dileu elw o ofal plant: diweddariad', 20 Tachwedd 2023

²⁵ Arolygiaeth Gofal Cymru, 'Adroddiad ar gartrefi gofal i blant sy'n gweithredu heb gofrestrriad', Hydref 2023, tudalen 5

²⁶ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 8 Chwefror 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 149

²⁷ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Mawrth 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 106

²⁸ Community Care, 'Courts to stop monitoring regulation of unregistered placements for children deprived of liberty', 13 Hydref 2023



gallai'r Bil hwn arwain at brinder ychwanegol o leoliadau gofal preswyl²⁹ o ganlyniad i'r cyfyngiadau arfaethedig ar wneud elw, o leiaf yn y tymor byr. Felly, rydym yn pryderu y gallai galluogi lleoliadau atodol mewn lleoliadau anawdurdodedig/anghofrestredig o dan adran 81B newydd Deddf 2014, yn erbyn cefndir prinder difrifol o lety diogel a phreswyl, arwain at gynnydd sylweddol yn y defnydd o DoLs mewn lleoliadau anghofrestredig wrth i awdurdodau lleol gael trafferth i leoli ein plant mwyaf agored i niwed mewn llety diogel neu hyd yn oed mewn cartrefi gofal preswyl.

Casgliad 3. Rydym yn credu y byddai'r darpariaethau a nodir yn adran 13 o'r Bil yn arwain at risg annerbyniol o uchel o ddefnydd cynyddol o lety anghofrestredig na fyddai'n darparu'r lefelau o ofal a chymorth y mae plant a phobl ifanc mewn gofal yn eu haeddu. Rydym yn pryderu'n fawr am y darpariaethau newydd hyn, sy'n darparu llwybr i awdurdodau lleol leoli plant mewn cartrefi plant nad ydynt wedi'u cofrestru gydag awdurdodau lleol neu gyda rhieni maeth nad ydynt wedi'u hawdurdodi gan awdurdodau lleol. Rydym yn nodi'r mesurau diogelu a nodir yn adrannau newydd 81B(3) i (8) o Ddeddf 2014, a'r trefniadau adrodd gorfodol yn adran 75D. Ond nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod y darpariaethau hyn yn lliniaru'r risgiau o normaleiddio lleoliadau anghofrestredig. Mae ein pryderon yn cael eu gwaethygu oherwydd y prinder tymor byr tebygol o leoliadau nid-er-elw i blant, fel y nodwyd gennym uchod, a allai arwain awdurdodau lleol i leoli hyd yn oed mwy o blant mewn llety anghofrestredig, gan gynnwys nifer cynyddol o blant sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid.

Atodiad B: Newidiadau polisi y credwn y dylid eu cynnwys yn y Bil

Llwythi achos gweithwyr cymdeithasol plant

Yn ein hadroddiad yn 2023, daethom i'r casgliad:

*"... bod cryfhau'r gweithlu gofal cymdeithasol yn allweddol i leihau cyfraddau'r plant sy'n dod i mewn i'r system ofal, a gwella bywydau'r plant hynny lle mai gofal yw'r penderfyniad cywir ar eu cyfer."*³⁰

Daethom i'r casgliad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth niferus a chyson y bobl ifanc eu hunain yr effeithiwyd yn uniongyrchol ar eu bywydau gan ddiffyg capasiti o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol

²⁹ Canfu erthygl ddiweddar gan y BBC fod tri chwarter y 314 o gartrefi plant sy'n gweithredu yng Nghymru yn cael eu rhedeg gan gwmnïau preifat. Gweler: BBC, ['Wales plans to remove profit from children's care'](#), 20 Mai 2024

³⁰ Senedd Cymru, ['Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal'](#), Mai 2023, tudalen 36



a barn arweinwyr gwaith cymdeithasol, a ddywedodd wrthym yn uniongyrchol: "The most radical reform that could be realised in this area is a reduction in workload for our social workers".³¹

Gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth wedi'i modelu ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyfrifo uchafswm y llwythi achosion diogel a hylaw ar gyfer gwahanol grwpiau o weithwyr cymdeithasol, ac i gymryd pob cam rhesymol i gynnal yr uchafswm llwythi achosion hynny. Ochr yn ochr â'r deddfwriaeth arfaethedig honno, gwnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal cynllun digonolrwydd y gweithlu cynhwysfawr, gan edrych ar lwybrau i mewn i waith cymdeithasol, a dull cenedlaethol o ymdrin â chyflog ac amodau gweithwyr cymdeithasol, fel y dull sy'n goruchwyllo staff addysgu yng Nghymru.

Dywedodd ein hadroddiad yn glir, "nid ydym yn galw am gapiau deddfwriaethol mympwyol ar lwythi achosion", a chydabu na fyddai diwygio deddfwriaethol, ynddo'i hun, yn lleihau llwythi gwaith gweithwyr cymdeithasol.³²

Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, gan ddadlau bod "cymhlethdod achosion yn amrywio'n sylweddol, ac felly gallai fod yn wrthgynhyrchol pennu uchafswm y llwythi achosion." Yn lle hynny, awgrymodd y byddai gwaith a wneir gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac eraill yn ymwneud â chynllunio'r gweithlu, a chan CLILC ar delerau ac amodau gwaith cymdeithasol, yn ysgogi gwelliannau i gapasiti gofal cymdeithasol.³³

Nodwn fod eich adroddiad ym mis Ebrill 2024 ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 wedi dod i'r casgliad a ganlyn:

Mae'n amlwg bod y Ddeddf wedi cryfhau'r gwaith o gynllunio'r gweithlu drwy amlygu lle mae'r bylchau yn y gweithlu presennol a rhoi tystiolaeth o nifer y nyrsys sydd eu hangen i ddiwallu anghenion cleifion. Ond, o ran sicrhau cyflenwad hirdymor, cynaliadwy o nyrsys, mae cymaint o ffactorau sy'n dylanwadu ar recriwtio a chadw staff nyrsio fel mai dim ond rhan o'r ateb y gall deddfwriaeth fod, yn hytrach na'r ateb cyfan.³⁴

Rydym yn credu bod cryfhau cynllunio'r gweithlu gofal cymdeithasol ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn ddigon o reswm ynddo'i hun i gymryd camau deddfwriaethol ar lwythi achosion

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 38 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

³² Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Os nad nawr, pryd? Diwygiadau radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 36-37

³³ Llywodraeth Cymru, 'Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dwyn y teitl "Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal"', 5 Gorffennaf 2023, tudalen 2

³⁴ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: Gwaith craffu ar ôl deddfu', Ebrill 2024



gweithwyr cymdeithasol. Ochr yn ochr â'n hargymhelliad cysylltiedig ar gyfer cynllun digonolrwydd y gweithlu cynhwysfawr a dull cenedlaethol o ymdrin â chyflogau ac amodau gwaith gweithwyr cymdeithasol, credwn y gallai dull deddfwriaethol hefyd ddechrau taith tuag at sicrhau llwythi achosion diogel a hylaw ar gyfer gweithwyr cymdeithasol plant. Byddai hyn yn galluogi'r gwaith cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd y dywedodd gweithwyr cymdeithasol eu hunain wrthym ei fod mor hanfodol er mwyn lleihau niferoedd y plant sy'n mynd i mewn i'r system ofal.

Rydym yn clywed trwy gydol ein hymchwiliad presennol i 'blant sydd ar yr ymylon' ar draws tystiolaeth ysgrifenedig, ein digwyddiadau rhanddeiliaid a'n gwaith ymgysylltu fod llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol yn aml yn rhy uchel i gefnogi ein plant mwyaf agored i niwed yn effeithiol. Ysgrifennodd Barnardo's:

*"As with all areas of the social care workforce at this time, there are endemic issues around recruitment and retention of staff which makes it incredibly difficult to ensure that children always have access to the same worker and can build a trusting relationship. Welsh Government should invest in ensuring that social work across the board is an attractive career option with a focus on retaining experienced and trusted staff. The sector is in crisis, with high caseloads, long waiting lists and low morale. We must tackle this entrenched issue to improve outcomes – both in terms of staff themselves and the way that we can support children, young people and families."*³⁵

Casgliad 4. Mae'n resyn gennym nad yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd unrhyw gamau yn y Bil i fynd i'r afael â llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol plant. Rydym yn dal i bryderu nad yw'r gwaith a wnaed gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac eraill, fel 'Cymru Iachach' a'i gynlluniau cyflawni sylfaenol, er eu bod yn werthfawr, yn debygol o arwain at y diwygiad radical y mae plant, eu teuluoedd, ac yn wir, gweithwyr cymdeithasol eu hunain yn ei haeddu.³⁶

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM21, Barnardo's Cymru. Gweler hefyd: Tystiolaeth ysgrifenedig, CYPM30, Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru. Mae llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol hefyd wedi cael eu codi yn ystod gwaith o gasglu tystiolaeth anffurfiol. Bydd crynodeb o ganfyddiadau ein digwyddiadau rhanddeiliaid a'n hymweliadau ymgysylltu yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

³⁶ Mae data Gofal Cymdeithasol Cymru yn dangos bod 6,736 o weithwyr cymdeithasol wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Mawrth 2022 – cynnydd o 3 y cant o'i gymharu â mis Mawrth 2021. Fodd bynnag, roedd y gweithlu gofal cymdeithasol yn ei gyfanrwydd 7 y cant yn llai ym mis Mawrth 2022 nag yr oedd ym mis Mawrth 2021. Hefyd ym mis Mawrth 2022: roedd nifer y swyddi gwaith cymdeithasol gwag wedi cynyddu 17 y cant o gymharu â 2021, ac roedd 12 y cant o weithwyr cymdeithasol yn cael eu cyflogi gan asiantaeth. Yng ngwanwyn 2023, dywed 77 y cant o weithwyr cymdeithasol fod cael gormod o waith neu beidio â chael digon o amser i'w wneud yn achosi straen yn y gwaith, ac mae 38 y cant yn anfodlon â'u swydd bresennol. Nid oes dim o'r data hwn wedi'u rhannu yn ôl gweithwyr gofal cymdeithasol gwasanaethau oedolion/plant. Gweler: Gofal Cymdeithasol Cymru, 'Cynllun cyflawni gweithlu gofal cymdeithasol 2024 i 2027', diweddarwyd ddiwethaf ar 7 Mehefin 2024

Cofrestru gofalwyr maeth a chreu cofrestr genedlaethol o leoliadau maeth

Fel y gwyddoch o'ch gwaith craffu ar y Bil hyd yma, mae digonolrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn bryder hollbwysig i'r sector. Yn ein hadroddiad yn 2023, gwnaethom drafod prinder lleoliadau maeth o ansawdd uchel, lleoliadau gofal preswyl, a llety diogel i bobl ifanc, a hyd yn oed rhoi bwriad Llywodraeth Cymru o'r neilltu i gyfyngu ar leoliadau sy'n gwneud elw.³⁷ Ar 31 Mawrth 2023, roedd 68.7 y cant o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru mewn lleoliad maeth (4,955 o blant), ac felly mae digonolrwydd lleoedd maeth o ansawdd uchel yn gwbl hanfodol i ddiwallu anghenion plant mewn gofal ledled Cymru.³⁸

Yn ystod ein gwaith casglu tystiolaeth ac ers hynny, clywsom straeon am blant y trawsnewidiwyd eu bywydau gan y gefnogaeth wych a gawsant gan ofalwyr maeth ymroddedig a chariadus. Yn anffodus, clywsom hefyd straeon torcalonnus am blant a oedd wedi cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth nad oeddent yn addas i ofalu am blant. Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, yn emosiynol a/neu'n gorfforol.³⁹

Dadleuodd y Rhwydwaith Maethu ac eraill dros greu gofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth fel ffordd o gael gwell syniad o faint o ofalwyr maeth sydd gennym ledled Cymru, nifer y lleoliadau y maent yn eu darparu, eu lleoliad, a gwybodaeth berthnasol arall. Awgrymodd hefyd y dylai fod yn ofynnol i ofalwyr maeth gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, sef y corff a fyddai'n gyfrifol am gadw a chynnal y gofrestr arfaethedig. Cawsom ein darbwyllo gan y dadleuon a gyflwynwyd gan y Rhwydwaith Maethu, ac fe wnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ariannu ac yn darparu cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth yn unol â hynny.⁴⁰

Cafodd ein hargymhelliad ei dderbyn yn rhannol gan Lywodraeth Cymru, a ymrwymodd i archwilio "ar ba ffurf y gallai cofrestr genedlaethol yng Nghymru fod".⁴¹ Yn siomedig, mae'n amlwg o dystiolaeth ddiweddar y Rhwydwaith Maethu i'ch Pwyllgor nad yw'r gwaith yn mynd rhagddo:

"But we also know that we don't have a great deal of insight and knowledge as to where our foster carers are in Wales and who they are. In the radical reform inquiry, a register was put forward as a recommendation, and I would strongly urge that to ensure that this legislation does actually meet its full requirement that,

³⁷ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 84-90, 95-96 a 102-103 yn y drefn honno

³⁸ StatsCymru, 'Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a math o leoliad'

³⁹ Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 23

⁴⁰ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 87-90

⁴¹ Llywodraeth Cymru, 'Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dwyn y teitl "Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal"', 5 Gorffennaf 2023, tudalennau 12-13



*alongside this, we expedite the opening up of a social care register for foster carers in order for them to ensure that they have that same level of status as social workers and residential care workers. Other parts of the sector have that via the provision of the register for them, and I think we have an urgent need to do that in Wales, and I'm very grateful that it was accepted as a recommendation by a previous committee. What we need to do now is actually expedite it, because it's been over a year since that recommendation was accepted, and we still don't seem to have a great deal of progress in relation to that."*⁴²

Argymhelliad 1. Dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried argymell i Lywodraeth Cymru y dylid diwygio Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) i'w gwneud yn orfodol i ofalwyr maeth gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn darparu lleoliadau maeth i blant sy'n derbyn gofal, a thrwy hynny gyflymu'r cynnydd tuag at sefydlu cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth.

Eiriolaeth ymweliad preswyl

Eiriolaeth ymweliad preswyl yw pan fydd cartref preswyl yn dynodi eiriolwr annibynnol i gynrychioli'r holl blant yn y cartref. Bydd yr eiriolwr yn cefnogi'r plant drwy ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am eu gofal, datrys anghydfodau, a chysylltu â gwasanaethau eiriolaeth eraill lle bo angen.

Yn ystod ein hymchwiliad i wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, cawsom ein hatgoffa gan y Gwasanaeth Eiriolaeth leuenctid Cenedlaethol fod eiriolaeth yng Nghymru – ac yn wir, sefydlu Comisiynydd Plant Cymru – wedi digwydd o ganlyniad i'r sgandal cam-drin plant yng Ngogledd Cymru: cyfres o ddigwyddiadau o gam-drin rhywiol a chorfforol ar draws cartrefi preswyl plant yng Nghlwyd a Gwynedd.⁴³ Fel y nododd adroddiad Waterhouse, mae eiriolaeth i blant mewn gofal preswyl yn arbennig o bwysig oherwydd gallant fod yn llawer mwy agored i niwed ac ynysig, ac felly'n wynebu risg o niwed neu gamdriniaeth.⁴⁴

Nododd ein hadroddiad yn 2023:

- Nid yw'r cysyniad o eiriolaeth (megis yr hawl statudol bod gan bob plentyn sy'n byw yng Nghymru sy'n derbyn gofal fynediad at 'gynnig gweithredol' o eiriolaeth yn seiliedig ar faterion) yn cael ei ddeall yn eang o hyd gan y rhai sy'n berchen ar gartrefi plant a ddarperir gan y sector preifat, na'r rhai sy'n gweithio yn y cartrefi hynny.

⁴² Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 27 Mehefin 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 18

⁴³ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2 Chwefror 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 142

⁴⁴ Waterhouse, Ronald et al, 'Lost in Care: Report of the Tribunal of Inquiry into the Abuse of Children in Care in the Former County Council Areas of Gwynedd and Clwyd since 1974', Chwefror 2000

- Bod hyd at 25 y cant o blant mewn cartrefi preswyl yng Nghymru'n cael eu lleoli gan awdurdodau lleol yn Lloegr (ac felly nid oes ganddynt yr hawl i 'gynnig gweithredol' o eiriolaeth fel sydd gan blant Cymru).
- Ar adeg ysgrifennu hwn, er bod gan bob cartref preswyl sy'n cael ei redeg gan awdurdod lleol eiriolwyr penodedig, dim ond 15 y cant o gartrefi preswyl preifat/gwirfoddol sydd ag eiriolwyr penodedig.

Daethom i'r casgliad drwy gydnabod manteision eiriolwr sy'n gallu cymryd trosolwg ehangach o wasanaethau gofal y cartref preswyl yn eu cyfanrwydd, er mwyn lleihau'r risg o gam-drin systematig fel y rhai yr ymchwiliwyd iddynt fel rhan o ymchwiliad Waterhouse yn digwydd byth eto.⁴⁵

Gwnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob plentyn mewn cartref gofal preswyl yng Nghymru yn cael mynediad at eiriolaeth ymweliad preswyl drwy ddiwygio'r trefniadau sydd ar waith o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i wneud darparu eiriolaeth ymweliad preswyl ym mhob cartref plant (gan ddarparwr eiriolaeth cofrestredig dan gontract) yn ofyniad er mwyn cofrestru fel darparwr cartrefi gofal plant yng Nghymru.⁴⁶

Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, gan ddadlau bod y 'cynnig gweithredol' o eiriolaeth yn cael ei ymestyn i blant mewn lleoliadau preswyl, ac y bydd gan bob plentyn Swyddog Adolygu Annibynnol hefyd i ddwyn gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau i gyfrif.⁴⁷

Am y rhesymau sy'n cael eu nodi mor glir yn ein hadroddiad a'u crynhoi uchod, ac er gwaethaf ymateb Llywodraeth Cymru, rydym yn parhau i gredu nad yw'r trefniadau eiriolaeth presennol ar gyfer plant mewn gofal preswyl yn ddigonol. Mae Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), sy'n nodi gofynion newydd ar gyfer ceisiadau i gofrestru mewn perthynas â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, yn gyfrwng deddfwriaethol delfrydol ar gyfer bwrw ymlaen â'n hargymhellion yn y maes hwn. Bydd cartrefi gofal preswyl a ddarperir gan y trydydd sector yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r dirwedd gofal preswyl yng Nghymru o dan y Bil. Fel y nodir yn ein hadroddiad, dim ond nifer fach o gartrefi gofal annibynnol sydd ag eiriolwyr, ac nid yw staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal annibynnol bob amser mor ymwybodol o hawliau eiriolaeth plant ag y dylent fod.

Argymhelliad 2. Dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried argymhell i Lywodraeth Cymru y dylid diwygio Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) fel bod y Bil bod darparu eiriolaeth ymweliad

⁴⁵ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 81-84

⁴⁶ Senedd Cymru, 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Mai 2023, tudalennau 83-84

⁴⁷ Llywodraeth Cymru, 'Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dwyn y teitl "Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal"', 5 Gorffennaf 2023, tudalennau 11-12



preswyl ar gyfer pob cartref gofal plant yn ofyniad ar gyfer cofrestru fel darparwr cartrefi gofal plant yng Nghymru.

Eitem 2.2

Eluned Morgan AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social CareLlywodraeth Cymru
Welsh GovernmentRussell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd CymruSeneddlechyd@senedd.cymru

12 Gorffennaf 2024

Annwyl Russell

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi fod Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar/Prif Weithredwr GIG Cymru a phrif weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cytuno ar fframwaith mesurau arbennig newydd, gan gynnwys meini prawf isgyfeirio ar gyfer y bwrdd iechyd.

Mae hyn yn disodli [fframwaith mesurau arbennig](#) y flwyddyn gyntaf. Mae'n cynnwys cyfres o feini prawf isgyfeirio ac yn amlinellu'r disgwyliadau a'r cerrig milltir a fydd yn cael eu hystyried cyn y gellir cytuno i isgyfeirio o lefel pump (mesurau arbennig) i lefel pedwar (ymyrraeth wedi'i thargedu).

Ar gais Llywodraeth Cymru, rhannwyd y fframwaith mesurau arbennig a'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer y chwe mis nesaf (rhwng mis Ebrill a mis Medi 2024) â'r bwrdd yn ei gyfarfod ar 30 Mai 2024, yn rhan o adroddiad y prif weithredwr. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar dudalen 187 o bapurau'r bwrdd: bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/bcuhb-agenda-30524-v20/

Bydd penderfyniadau o ran isgyfeirio yn seiliedig ar asesiad cyffredinol o gynnydd ar draws y meysydd yn hytrach na chyflawni pob maen prawf o dan bob maes yn llwyr. Er mwyn ystyried isgyfeirio i'r lefel nesaf, bydd angen i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar/Prif Weithredwr GIG Cymru a'i thîm fod yn gymharol hyderus bod cynnydd digonol wedi'i wneud o ran y meini prawf isgyfeirio a bod y gwelliannau'n gynaliadwy. Bydd y cynnydd hwn yn cael ei driongli â thystiolaeth gan y partneriaid teirochrog a rhanddeiliaid eraill.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SNCanolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pan fo'n briodol, bydd Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar/Prif Weithredwr GIG Cymru yn rhoi cyngor ac argymhelliad clir imi yn seiliedig ar yr asesiad hwn. Bydd hyn yn fy ngalluogi i wneud penderfyniad. Bydd isgyfeirio yn golygu isgyfeirio i lefel nesaf [fframwaith goruchwyllo ac uwchgysgyfeirio'r GIG](#), sef o lefel pump i lefel pedwar yn y lle cyntaf, gyda llai o oruchwyliaeth ac adrodd ar bob cam y broses isgyfeirio.

Byddaf yn parhau i geisio sicrwydd parhaus ynghylch cynnydd yn fy nghyfarfodydd adolygu misol gyda chadeirydd y bwrdd iechyd ac yng nghyfarfodydd chwarterol y fforwm gwella mesurau arbennig, sy'n cael eu cynnal ar y cyd â minnau, y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar a'r bwrdd.

Yn gywir



Eluned Morgan AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

**Health and Social Care
Committee**

Eluned Morgan AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal
Cymdeithasol

31 Mai 2024


Annwyl Eluned

Canserau gynaeolegol

Yn ystod y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor ar ganserau gynaeolegol ar 15 Mai, gwnaethoch ddweud y byddwch yn cynnal uwchgynhadledd genedlaethol ym mis Gorffennaf i ganolbwyntio sylw'r GLG ar wasanaethau gynaeolegol, gan gynnwys canser.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf gennych am ganlyniad yr uwchgynhadledd hon, gan gynnwys arwydd a ydych yn bwriadu cyhoeddi manylion am yr uwchgynhadledd, ynghyd ag unrhyw benderfyniadau neu gamau gweithredu.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Eluned Morgan AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r
Gymraeg
Cabinet Secretary for Health, Social Care and Welsh
Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Seneddlechyd@senedd.cymru

25 Gorffennaf 2024

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Mai ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynglŷn â'r uwchgynhadledd gynaeceleg.

Gallaf gadarnhau y cynhaliwyd uwchgynhadledd Weinidogol a oedd yn canolbwyntio ar wasanaethau gynaeceleg ar 8 Gorffennaf gan ddwyn ynghyd gynrychiolwyr o bob bwrdd iechyd, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Gweithrediaeth GIG Cymru a'r trydydd sector.

Rydym yn llunio adroddiad ynglŷn â'r digwyddiad a bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei gwblhau yn yr wythnosau nesaf. Cyhoeddir adroddiadau o uwchgynadledau Gweinidogol ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae pob un sydd wedi'i gyhoeddi hyd yma ar gael yn:
[Uwchgynadledau gweinidogol ar ofal cymdeithasol ac iechyd: adroddiadau | LLYW.CYMRU](#)

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion anfon copi o'r adroddiad ymlaen at y pwyllgor unwaith y bydd yn barod.

Yn gywir

Eluned Morgan AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Health, Social Care and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 21
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Item 2.5

Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Health and Social Care Committee

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Seneddlechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

Senedd Cymru

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Eluned Morgan AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Jayne Bryant AS

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynnyddoedd Cynnar

19 Mehefin 2024

Annwyl Eluned a Jayne,

Gofal iechyd carcharorion

Fel y gwyddoch, tua diwedd y Bumed Senedd, cynhaliodd y pwyllgor a'n rhagflaenodd **ymchwiliad i iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystad carchardai i oedolion yng Nghymru.** Canolbwyntiodd yr ymchwiliad ar y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'i heffaith ar iechyd a lles meddyliol a chorfforol carcharorion.

Gwnaeth **adroddiad** y Pwyllgor hwnnw nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru a oedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd llywodraethiant strwythuredig, ymdrechion cydweithredol ar draws y Llywodraeth a chyrff iechyd, a sefydlu safonau a llwybrau clir i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn y system carchardai. Pwysleisiodd yr angen am ymagwedd gynhwysfawr at iechyd a gofal cymdeithasol mewn carchardai a fyddai'n cwmpasu addysg staff, cynllunio strategol, dyrannu adnoddau, ac integreiddio technoleg i ddiwallu anghenion gofal iechyd carcharorion yn effeithiol.

Yn 2022, fe wnaethom **ohebu** â chi a'ch Dirprwy Weinidogion ar y pryd am y cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr adroddiad uchod. Bryd hynny, roedd y pandemig wedi amharu ar rywfaifaint o'r cynnydd.

Yn fwy diweddar, mae Dr Robert Jones o Ganolfan Llywodraethiant Cymru **wedi cysylltu â ni** ynghylch cyllid ar gyfer gofal iechyd mewn carchardai. Mae ei lythyr yn amlygu'r ffaith bod y




tanariannu yng ngofal iechyd carcharorion wedi dwsáu ers i'r Pwyllgor gwblhau ei ymchwiliad yn 2021. Mae'n dweud bod cost gwasanaethau gofal iechyd i garcharorion yng Nghymru wedi cynyddu 29 y cant i £7,163,188 yn ystod y 12 mis diwethaf, ond bod y cyllid a ddarperir drwy'r trosglwyddiad o'r Bloc wedi aros yr un fath ag yr oedd pan gafodd ei osod ddau ddegawd yn ôl, sef £2.544 miliwn.

Yn ogystal â'r uchod, rydym, wrth gwrs, yn ymwybodol o'r gyfres o farwolaethau diweddar yn ymwneud â chyffuriau yng Ngharchar EF/Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sydd wedi achosi pryderon am ddiogelwch mewn carchardai.

Mae'r rhain yn faterion sy'n haeddu ystyriaeth bellach ar hyn o bryd ac, i'r perwyl hwn, rwyf wedi nodi nifer o feysydd yn yr atodiad sydd ynghlwm y byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf yn eu cylch o ran cynnydd. Er hwylustod, rwyf wedi cynnwys cyfeiriad at yr argymhelliad perthnasol yn adroddiad ein rhagflaenydd. Byddwn yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn **8 Gorffennaf 2024**.

O ystyried diddordeb eu Pwyllgorau yn y mater hwn, mae copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad

A allech roi'r wybodaeth ddweddaraf am bob un o'r meysydd canlynol:

1. y trefniadau arolygu ar gyfer Carchar EF/ Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ac a ydynt yn cyd-fynd yn llwyr â'r rhai sydd ar waith ar gyfer carchardai sector cyhoeddus yng Nghymru (Argymhelliad 3);
2. ers i'r gofal iechyd yng Ngharchar EF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc fod o dan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Rhagfyr 2022), y gwelliannau a welwyd yn y gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir;
3. sut mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Bwrdd Iechyd, HMPPS, a Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gofal iechyd a ddarperir yn gyson ac yn bodloni'r safonau gofynnol;
4. y sylwadau a gyflwynwyd i Lywodraeth y DU i alluogi'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth i gwestiynu barn broffesiynol a chlinigol mewn cwynion am wasanaethau iechyd mewn carchardai sy'n cael eu rhedeg yn breifat megis CEF y Parc (Argymhelliad 5);
5. yr ystyriaeth a roddwyd i fabwysiadu'r dull a ddefnyddir yn Lloegr ar gyfer sicrhau bod cofnodion meddygol cyn carchar ar gael i wasanaethau iechyd carchardai (Argymhelliad 8);
6. sut y caiff cynnydd ar flaenoriaethau iechyd meddwl ei fonitro, gan gynnwys sut yr asesir cyfraniad safonau cenedlaethol (Argymhelliad 10);
7. yr amserlenni a ragwelir ar gyfer datblygu llwybr clinigol safonol ar gyfer rheoli camddefnyddio sylweddau mewn carchardai (Argymhelliad 12);
8. y blaenoriaethau a'r cynllun gwaith diwygiedig ar gyfer y Grŵp i Fynd at Wraidd y Mater, gan gynnwys monitro mynediad at gymorth i garcharorion sydd â materion sy'n cyd-ddigwydd (Argymhelliad 13);
9. trafodaethau ag HMPPS ynghylch sefydlu Grŵp Cyngori Arbenigol ar gyfer Meddyginiaethau (Argymhelliad 14);
10. y fanyleb gwasanaeth y cytunwyd arni ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yng Ngharchar EF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, a'r mesurau sydd ar waith i sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd sgrinio a chymorth dementia (Argymhelliad 16).
11. y camau a gymerwyd i ddod o hyd i linell sylfaen deg, ddigonol a chynaliadwy ar gyfer cyllid drwy Floc Cymru ar gyfer darpariaeth gofal iechyd mewn carchardai (Argymhelliad 21);
12. y cynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran coladu ac adolygu costau darpariaeth gofal iechyd ar draws carchardai yng Nghymru, a phryd y gallwn ddisgwyl i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi (Argymhelliad 22);



13. y camau a gymerwyd i fonitro galw, darpariaeth a gwariant o ran gofal cymdeithasol mewn carchardai i sicrhau nad yw materion ariannu yn atal mynediad at ofal angenrheidiol (Argymhelliad 23);
14. y camau a gymerwyd tuag at nodi, datblygu a chyhoeddi setiau data penodol i Gymru ar boblogaeth bresennol carchardai a'r bobloglaeth a ragwelir (Argymhelliad 25).

Eitem 2.6

Sarah Murphy AS/MS

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar

Minister for Mental Health & Early Years

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/JB/5855/24

Russell George AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Senedd Cymru

Seneddlechyd@senedd.cymru

22 Gorffennaf 2024

Annwyl Russell,

Gofal Iechyd Carcharorion

Diolch am eich llythyr ar 19 Mehefin yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn adroddiad y pwyllgor, sef '*Darparu Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Ystâd Carchardai i Oedolion yng Nghymru*'.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i wella iechyd a llesiant yn yr ystad ddiogeledd.

Mae'r [cytundeb partneriaeth](#) rhwng HMPPS yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi ein blaenoriaethau cyffredin i sbarduno gwelliannau yn iechyd a llesiant pawb a gedwir yng ngharchardai Cymru. Mae'n cydnabod rhwymedigaethau statudol unigryw pob sefydliad partner, gan adeiladu ar y nod a rennir o sicrhau bod y rheini sydd yn y carchar yn cael byw mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant, a lle mae mynediad at wasanaethau iechyd o safon gyfatebol i'r gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned.

Mae HMPPS yng Nghymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rheoli troseddwy'r yng Nghymru. Mae'n gyfrifol am garchardai'r sector cyhoeddus, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru ac mae ganddo gyfrifoldebau rheoli contractau ar gyfer Carchar ei Fawrhydi a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc sydd dan gontract preifat. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am wasanaethau iechyd mewn carchardai sector cyhoeddus a'r byrddau iechyd sy'n gyfrifol am gomisiynu a darparu gwasanaethau iechyd mewn carchardai sector cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ddiweddar fe wnaeth Llywodraeth Cymru gwblhau ymgynghoriad ar ein *Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol* newydd a'n *Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio*. Nododd y *Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol* fod pobl sydd yn y carchar yn grŵp nad yw'n cael ei wasanaethu'n ddigonol ac mae'r *Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio* yn nodi carchardai fel lleoliad blaenoriaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r canfyddiadau yn nifer o adroddiadau pwyllgor cysylltiedig y Senedd, gan gynnwys *Darparu Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Ystâd Carchardai i Oedolion yng Nghymru*, wedi llywio datblygiad y strategaethau hyn. Bydd swyddogion nawr yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gwblhau'r strategaethau a'r cynlluniau cyflawni a fydd yn nodi'r camau blaenoriaeth cychwynnol. Bydd cynnydd yn erbyn gweithredu'r strategaethau'n cael ei adrodd fel rhan o'r trefniadau monitro arferol a fydd yn cael eu sefydlu. Mae hyn yn cynnwys cynnydd ar gamau gweithredu i gefnogi pobl yn y carchar.

Rwyf wedi nodi ymatebion i'ch cwestiynau penodol yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'S. Murphy'.

Sarah Murphy AS/MS

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar
Minister for Mental Health & Early Years

Atodiad

Trefniadau arolygu ar gyfer Carchar EF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ac a ydynt yn cyd-fynd yn llwyr â'r rhai sydd ar waith ar gyfer carchardai sector cyhoeddus yng Nghymru (Argymhelliad 3).

Mae gofal iechyd yng Ngharchar EF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn cael ei ddarparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (mae hyn wedi bod yn wir ers 15 Rhagfyr 2022). Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith rhwng y bwrdd iechyd, HMPPS yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, mae gofal iechyd yng Ngharchar EF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc bellach yn unol â'r carchardai eraill yng Nghymru o ran trefniadau arolygu.

Ers i'r gofal iechyd yng Ngharchar EF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc fod o dan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Rhagfyr 2022), y gwelliannau a welwyd yn y gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir.

Mae amrywiaeth o welliannau wedi bod yn bosibl ers trosglwyddo gofal iechyd yng Ngharchar EF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, gan gynnwys:

- Mwy o bŵer prynu fel rhan o system ehangach GIG Cymru.
- Cynnwys yn system gwyno y bwrdd iechyd sy'n darparu tegwch gyda'r gymuned.
- Mynediad i ystod ehangach o weithwyr iechyd proffesiynol ar gyfer recriwtio.
- Dysgu gan wasanaethau iechyd a ddarperir yn y gymuned.
- Lefelau cyllid uwch ar gyfer gofal iechyd oherwydd y trefniant cyllido gyda HMPPS yng Nghymru.
- Mwy o dryloywder a goruchwyliaeth o'r ddarpariaeth iechyd yn y carchar.

Sut mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y bwrdd iechyd, HMPPS, a Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gofal iechyd a ddarperir yn gyson ac yn bodloni'r safonau gofynnol.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, HMPPS a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn darparu llinell sylfaen newydd ar gyfer darparu gofal iechyd yng Ngharchar EF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc. Fel rhan o'r broses o lywodraethu'r cyfnod pontio, cynhaliwyd asesiad o anghenion iechyd, a lywododd y broses o greu manyleb gwasanaeth llawn ar gyfer gofal iechyd am y tro cyntaf. Mae darpariaeth gofal iechyd yn cael ei asesu yn erbyn y fanyleb hon.

Mae gan y carchar fwrdd partneriaeth iechyd yn ei le a chyfarfod grŵp gweithredol misol.

Y sylwadau a gyflwynwyd i Lywodraeth y DU i alluogi'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth i gwestiynu barn broffesiynol a chlinigol mewn cwynion am wasanaethau iechyd mewn carchardai sy'n cael eu rhedeg yn breifat megis CEF y Parc (Argymhelliad 5).

Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gyda swyddfa'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth i edrych ar yr argymhellion. Fodd bynnag, arweiniodd y broses o drosglwyddo gofal iechyd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg at gwynion ynghylch gwasanaethau iechyd yn y carchar yn cael mynediad at yr un lefel o graffu ag yn y gymuned ehangach (y boblogaeth nad yw yn y carchar) a charchardai yn y sector cyhoeddus. Mae cwynion bellach yn dilyn y prosesau sefydledig o fewn y GIG.

Yr ystyriaeth a roddwyd i fabwysiadu'r dull a ddefnyddir yn Lloegr ar gyfer sicrhau bod cofnodion meddygol cyn carchar ar gael i wasanaethau iechyd carchardai (Argymhelliad 8).

Bydd Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cynnal gweithdy yr haf hwn gyda'r holl dimau gofal iechyd carchardai i ystyried ystod o faterion TG o fewn yr ystâd carchardai. Bydd mynediad at gofnodion gofal iechyd yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymarfer hwn.

Sut y caiff cynnydd ar flaenoriaethau iechyd meddwl ei fonitro, gan gynnwys sut yr asesir cyfraniad safonau cenedlaethol (Argymhelliad 10).

Yr amserlenni a ragwelir ar gyfer datblygu llwybr clinigol safonol ar gyfer rheoli camddefnyddio sylweddau mewn carchardai (Argymhelliad 12).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer carchardai yng Nghymru. Cyhoeddwyd crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad yn 2023, ac mae'r fframwaith a'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl wedi'u cwblhau. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Choleg Brenhinol y Seiciatryddion a Chanolfan Gwella Ansawdd y Coleg (CCQI) i wneud gwaith sylfaenol gyda charchardai i asesu'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn erbyn y safonau hyn.

Y blaenoriaethau a'r cynllun gwaith diwygiedig ar gyfer y Grŵp i Fynd at Wraidd y Mater, gan gynnwys monitro mynediad at gymorth i garcharorion sydd â materion sy'n cyd-ddigwydd (Argymhelliad 13).

Mae gwybodaeth gan y Grŵp i Fynd at Wraidd y Mater wedi llywio datblygiad fersiwn ddrafft y *Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol* a fersiwn ddrafft y *Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio*. Daeth yr ymgynghoriad ar y ddwy ddogfen i ben ar 11 Mehefin ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi. Mae pobl yn y carchar wedi cael eu nodi fel grŵp nad yw'n cael ei wasanaethu'n ddigonol yn y *Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol*, a nodwyd carchardai fel lleoliad blaenoriaeth ar gyfer y *Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio*.

Mae'r Grŵp i Fynd at Wraidd y Mater wedi dod i ben ac rydym yn adolygu trefniadau llywodraethu i gefnogi'r *Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol* newydd a'r *Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio*, ac i gryfhau cysylltiadau rhwng iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

Trafodaethau ag HMPPS ynghylch sefydlu Grŵp Cyngori Arbenigol ar gyfer Meddyginiaethau (Argymhelliad 14).

Comisiynodd Llywodraeth Cymru y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) i gynnal adolygiad o wasanaethau fferylliaeth mewn carchardai yn erbyn safonau proffesiynol RPS ar gyfer optimeiddio meddyginiaethau i bobl mewn amgylcheddau diogel. Cwblhawyd yr adolygiad ym mis Rhagfyr 2021 ac mae pob bwrdd iechyd a charchar wedi llunio cynlluniau gweithredu ac yn bwrw ymlaen â nhw mewn ymateb i'w hadroddiadau unigol.

Nododd yr adolygiad yr angen i ddatblygu dangosyddion cyffredin neu fframweithiau ansawdd y gellir eu cymhwyso'n genedlaethol gan fyrdau iechyd a charchardai i helpu i ysgogi gwelliannau a chysondeb wrth ragnodi. Er mwyn cefnogi a chydlynu'r gwaith, penodwyd arweinydd fferylliaeth cenedlaethol ar gyfer carchardai.

Mae Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan yn cynghori Llywodraeth Cymru a'r GIG ynghylch defnyddio, rheoli a rhagnodi meddyginiaethau. Mae ei rôl yn ymestyn i bob amgylchedd a sector lle defnyddir meddyginiaethau, gan gynnwys amgylcheddau diogel.

O ystyried ei rôl gynghori statudol, rydym yn bwriadu defnyddio Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan i roi cyngor ar ddefnyddio, rheoli a rhagnodi meddyginiaethau mewn carchardai. Bydd hyn yn cael ei lywio gan waith yr arweinydd fferyllfa cenedlaethol ar gyfer carchardai.

Y fanyleb gwasanaeth y cytunwyd arni ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yng Ngharchar EF/Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc, a'r mesurau sydd ar waith i sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd sgrinio a chymorth dementia (Argymhelliad 16).

Mae Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a HMPPS yng Nghymru wedi cytuno ar fanyleb gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yng Ngharchar EF a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc, sy'n cynnwys sgrinio ar gyfer dementia, a chymorth i'r rhai sydd â dementia.

Y camau a gymerwyd i ddod o hyd i linell sylfaen deg, ddigonol a chynaliadwy ar gyfer cyllid drwy "floc" Cymru ar gyfer darpariaeth gofal iechyd mewn carchardai (Argymhelliad 21).

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y rhan fwyaf o'i chyllid gan Lywodraeth y DU ar ffurf grant bloc a chyfran o'i chyllid blynyddol o drethi datganoledig.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid penodol gan Lywodraeth y DU ar gyfer gofal iechyd carcharorion yn flynyddol. Yn 2014-15, cafodd Llywodraeth Cymru drosglwyddiad rheolaidd o £2.544m i gefnogi gofal iechyd carcharorion mewn carchardai cyhoeddus yng Nghymru. Nid oes unrhyw gyllid penodol ychwanegol wedi ei ddarparu i Lywodraeth Cymru (gan Lywodraeth y DU) ar gyfer gofal iechyd mewn carchardai.

Bydd Gweinidogion Cymru, drwy'r broses gyllideb flynyddol, yn pennu cynlluniau gwariant adrannol Llywodraeth Cymru. Bydd dyraniadau'r GIG wedyn yn cael eu gwneud i fyrddau iechyd yng Nghymru. Mae'r boblogaeth carchardai wedi'i chynnwys mewn amcangyfrifon poblogaeth a ddefnyddir fel sail i bennu cyfran canran dyraniadau'r GIG ar draws byrddau iechyd yng Nghymru. Mater felly i'r byrddau iechyd unigol yw penderfynu ar y dyraniad cyllid i garchardai yn eu hardal.

Y cynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran coladu ac adolygu costau darpariaeth gofal iechyd ar draws carchardai yng Nghymru, a phryd y gallwn ddisgwyl i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi (Argymhelliad 22).

Mae byrddau iechyd yn cynllunio gwasanaethau yn lleol yn seiliedig ar anghenion, gan gynnwys yng ngharchardai'r sector cyhoeddus. Lle mae gwahanol fecanweithiau ariannu yn bodoli (er enghraifft yng Ngharchar EF y Parc a Charchar EF y Berwyn) cynhaliwyd asesiadau o anghenion iechyd fel rhan o'r broses i nodi cost/adnoddau i ddarparu darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn y lleoliadau hyn.

Nid oes gennym gynlluniau i adolygu costau darpariaeth gofal iechyd mewn carchardai, ond rydym yn archwilio opsiynau i sicrhau gwell craffu a goruchwyllo ar drefniadau gofal iechyd i gefnogi gwelliannau parhaus.

Y camau a gymerwyd i fonitro galw, darpariaeth a gwariant o ran gofal cymdeithasol mewn carchardai i sicrhau nad yw materion ariannu yn atal mynediad at ofal angenrheidiol (Argymhelliad 23).

Trosglwyddwyd yr arian ar gyfer y maes hwn i Grant Cynnal Refeniw (RSG) yr awdurdod lleol yn 2018 – a mater i awdurdodau lleol yw sicrhau bod eu dyletswyddau statudol yn y maes hwn yn cael eu cyflawni. Daw'r rhain o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a ddaeth i rym yn 2016. Mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar waith rhwng pob carchar yng Nghymru, yr awdurdod lleol perthnasol a darparwyr perthnasol.

Y camau a gymerwyd tuag at nodi, datblygu a chyhoeddi setiau data penodol i Gymru ar boblogaeth bresennol carchardai a'r boblogaeth a ragwelir (Argymhelliad 25).

Nid Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr wybodaeth hon. Byddem yn annog sefydliadau sydd angen mwy o ddata ar lefel Cymru ar gyfer carchardai i weithio'n uniongyrchol gyda HMPPS yng Nghymru.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Seneddlechyd@senedd.cymru

Dyddiad / Date: 30 Gorffennaf 2024

Annwyl aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Diolch am y cyfle i siarad ger bron y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 17 Gorffennaf 2024.

Gofynnwyd i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig am ffigurau mewn perthynas â gwasanaethau nid er elw a gwasanaethau er elw. Gweler rhagor o wybodaeth yn yr Atodiad isod.

Yn gywir



Gillian Baranski
Prif Arolygydd
Arolygiaeth Gofal Cymru

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Merthyr Tudful
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 7900 126

✉ ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Merthyr Tydfil Office
Welsh Government
Adeiladau'r Llywodraeth
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad

Gwasanaethau a lleoedd ar gyfer cartrefi gofal plant, 2022-2024

Datblygiadau dros y tair blynedd diwethaf ar gyfer cartrefi gofal preswyl:

2022		
31 Mawrth	256 o wasanaethau	1061 o leoedd
2023		
31 Mawrth	277 o wasanaethau	1106 o leoedd
2024		
31 Mawrth	314 o wasanaethau	1149 o leoedd

Nifer y gwasanaethau o ran cartrefi plant nid er elw ac er elw				
Wedi'u grwpio yn ôl gwasanaethau Er Elw/Nid Er Elw	is-fath o ddarparwr gwasanaeth	2022	2023	2024
Er elw	Cwmni Cyfyngedig	201	219	234
Er elw	Corff Corfforaethol Arall	6	6	6
Cyfanswm Er elw		207	225	240
Nid er elw	Sefydliadau Corfforedig Elusennol	1	1	1
Nid er elw	Awdurdod Lleol	34	38	58
Nid er elw	Corff Corfforaethol Arall	14	13	15
Cyfanswm Nid er elw		49	52	74
Cyfanswm Cyfun		256	277	314

Nifer y lleoedd mewn cartrefi plant nid er elw ac er elw				
Wedi'u grwpio yn ôl gwasanaethau Er Elw/Nid Er Elw	is-fath o ddarparwr gwasanaeth	2022	2023	2024
Er elw	Cwmni Cyfyngedig	803	845	871
	Corff Corfforaethol Arall	19	19	19
Cyfanswm Er elw		822	864	890
Nid er elw	Sefydliadau Corfforedig Elusennol	6	6	6
	Awdurdod Lleol	151	154	196
	Corff Corfforaethol Arall	82	82	57
Cyfanswm Nid er elw		239	242	259
Cyfanswm Cyfun		1061	1106	1149

Dawn Bowden AS

Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol

8 Gorffennaf 2024

Annwyl Dawn,

Craffu ar oblygiadau ariannol y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 3 Gorffennaf i roi tystiolaeth ar gyfer ein gwaith craffu ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o wybodaeth mewn ymateb i'r cwestiynau a ganlyn na ellid eu gofyn yn ystod y sesiwn dystiolaeth lafar oherwydd cyfyngiadau amser neu yr oeddech wedi cytuno i roi eglurhad pellach yn ysgrifenedig yn eu cylch:

Dull Llywodraeth Cymru o fesur a chyflwyno goblygiadau ariannol y Bil

- Mae swm yr elfennau cyfansoddol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu bod cyfanswm cost y Bil yn amrywio o £394.5 miliwn i £495.7 miliwn. Fodd bynnag, mae hyn yn wahanol i gyfanswm y gost a nodir yn y crynodeb o'r Asesiad hwnnw, sef £429.8 miliwn i £455.7 miliwn. Rydym hefyd wedi nodi anghysondebau eraill yng ngwerth y costau a'r manteision yn y crynodeb o'r Asesiad ac mae'r tablau wedi'u cynnwys yng ngweddill yr Asesiad. A fydddech cystal â rhoi eglurhad o'r ffigurau cywir neu esboniad am y gwahaniaethau hyn.

Newidiadau a goblygiadau ariannol yn ymwneud â 'dileu elw' i wasanaethau preswyl a maethu plant

- O ran pa dystiolaeth ydych chi'n credu y bydd awdurdodau lleol yn gweld llai o gostau am wasanaethau preswyl a maethu dros y cyfnod arfarnu, yn enwedig gan fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn amlygu bod rhai o'r manteision gweithredol yn cael eu herio a dywedodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd nad yw cost lleoliadau cartref plant awdurdodau lleol yn is na chost lleoliadau gyda darparwyr preifat?



- Pa wahaniaeth cost y mae awdurdodau lleol yn ei weld am ddod â'u gwasanaethau yn fewnol ac a ydych wedi cynnal cynllun peilot i brofi'r potensial i wneud arbedion wrth ddarparu lleoliadau maethu, fel yr awgrymwyd gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd? Os felly, a allech roi gwybodaeth am yr hyn a ddangosodd?
- Sut ydych chi wedi cyfrifo'r elw y disgwylir i ddarparwyr ei golli o ganlyniad i'r cynigion, gan adlewyrchu'r "ystod eang o fusnesau" yn y farchnad a pham mai cyn lleied o wybodaeth a ddarperir am yr amcangyfrifon yn yr Asesiad a'r adroddiad ar wahân gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.
- Mewn ymatebion i ymgyngoriad Llywodraeth Cymru ar y cynnig polisi, nodwyd y "teimlwyd bod amseriad arfaethedig cyflwyno'r gofynion ar gyfer darparwyr presennol ar 1 Ebrill 2027 yn rhy uchelgeisiol ac roedd yn peri risg i ddiogelwch plant a phobl ifanc sydd angen lleoliad sefydlog cofrestredig o ansawdd da". Er gwaethaf hyn, rydych yn bwriadu cadw at yr amserlen hon. A allwch esbonio pam hynny?
- Pa ragdybiaethau rydych wedi'u gwneud yn yr Asesiad am hyd y cyfnod pontio a beth fyddai'r goblygiadau ariannol pe bai angen ei estyn?
- Dywed y Children's Homes Association fod ymatebion i arolwg ar ôl gweithdy Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2023 na fyddai unrhyw ddarparwyr annibynnol, ar y pryd, yn fodlon nac yn gallu trosglwyddo i fodel nid-er-elw. Sut fyddwch yn rheoli'r gwaith trosglwyddo os bydd cyfran sylweddol o ddarparwyr preifat yn ymadael â'r farchnad yn gyflym; sut y bydd capasiti yn cael ei gyflawni a pha adnoddau y bydd eu hangen ar gyfer y trosglwyddo.

Newidiadau a goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r cynnig i ganiatáu taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus

- Rydych yn tybio bod 110 o bobl ar draws yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn gohirio neu'n gwrthod trosglwyddo i Ofal Iechyd Parhaus ar hyn o bryd. Dywedodd Anabledd Cymru wrth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei bod yn ymddangos bod y rhif hwn yn eithaf isel. A allech ymateb i'r datganiad hwnnw?
- Mae goblygiadau ariannol cyflwyno taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus wedi cael eu llywio gan brofiadau o weithredu Cyllidebau Iechyd Personol yn Lloegr, gyda chost taliadau uniongyrchol yn amrywio o £46,000 i £120,000 y pecyn. Er eich bod yn nodi ei bod yn debygol y bydd amrywiad tebyg ar draws pecynnau yng Nghymru, rydych wedi defnyddio cost pecyn cyfartalog o £50,000 yn yr Asesiad. A allech esbonio pam hynny?
- Mae'r Asesiad yn mesur y gostyngiad mewn costau i awdurdodau lleol o bobl sy'n trosglwyddo o ofal cymdeithasol i daliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus fel rhai sy'n



amrywio o £10.9 miliwn i £13.7 miliwn. Pam ydych wedi defnyddio'r budd mwyaf yn y crynodeb o'r Asesiad yn hytrach na'r ystod o werthoedd?

- Pa sicrwydd allwch ei roi bod y trefniadau gweinyddol a chymorth ar gyfer taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus, ynghyd â'u costau amcangyfrifedig, yn adlewyrchu profiad Byrddau Iechyd Lleol o becynnau Gofal Iechyd Parhaus presennol a phrofiad y llywodraeth leol o ofal cymdeithasol?

Sut y caiff y darpariaethau yn y Bil eu monitro yn ogystal â'r gwariant ariannol cysylltiedig

- A wnaiff Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid ychwanegol i dalu am y cyfalaf a'r costau parhaus y disgwylir i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol eu hysgwyddo o ganlyniad i'r cynigion hyn; beth sy'n digwydd os nad yw'r gostyngiad amcangyfrifedig mewn alldro yn digwydd?
- Sut y byddwch yn monitro a yw'r cynigion yn cyflawni'r amcanion polisi a sut y mae costau cysylltiedig adolygiad ôl-weithredu yn cael eu hadlewyrchu yn yr Asesiad?

Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi ymateb erbyn dydd Llun 29 Gorffennaf, i sicrhau y gellir ystyried eich tystiolaeth pan fyddwn yn llunio adroddiad.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 29

Dawn Bowden AS/MS
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol
Minister for Social Care



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: DB-PO-0199-24

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
SeneddCyllid@Senedd.cymru

26 Gorffennaf 2024

Annwyl Peredur,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf, yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyllid i drafod Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru). Yn yr atodiad i'r llythyr hwn rwy'n ymateb yn fanwl i'r pwyntiau a godwyd gennych. Gobeithiaf y bydd hyn yn rhoi rhywfaint o eglurder i'r Pwyllgor.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

Dawn Bowden AS/MS
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol
Minister for Social Care

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 38
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

1. Dull Llywodraeth Cymru o fesur a chyflwyno goblygiadau ariannol y Bil

- (a) Mae swm yr elfennau cyfansoddol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu bod cyfanswm cost y Bil yn amrywio o £394.5m i £495.7m. Fodd bynnag, mae hyn yn wahanol i gyfanswm y gost a nodir yn y crynodeb o'r Asesiad hwnnw, sef £429.8m i £455.7m. Rydym hefyd wedi canfod anghysondebau eraill rhwng gwerth y costau a'r manteision yn y crynodeb o'r Asesiad a'r tablau sydd wedi'u cynnwys yng ngweddill yr Asesiad. A fyddech cystal â rhoi eglurhad o'r ffigurau cywir neu esboniad am y gwahaniaethau hyn.**

Rydym wedi adolygu tablau crynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac rydym yn fodlon bod yr ystodau o £394.5M i £495.7M a gyflwynwyd yno yn gywir.

Nid yw'r ystod o £429.8M i £455.7M yn ymddangos yn y crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ond ymddengys ei fod wedi cael ei gyfrifo drwy adio'r gwerthoedd isaf o'r ystodau 'Costau gweinyddol', 'Costau cydymffurfio' a 'Chostau eraill' a'r gwerthoedd uchaf o'r un ystodau hynny yn y crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, er mwyn cyfrifo'r costau isaf neu uchaf ar gyfer dileu elw preifat o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae angen ystyried amcangyfrif costau gwahanol senarios gyda'i gilydd, yn hytrach nag adio'r holl ffigurau isaf o'r ystodau gyda'i gilydd, neu'r holl ffigurau uchaf o'r ystodau.

Mae'r ystodau ar gyfer y costau a'r arbedion cost o dan yr adran dileu elw preifat wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio gwahanol dybiaethau (senarios) ar gyfer cyfran y darparwyr sector preifat presennol a fydd yn dewis aros yn y farchnad. Cyflwynir y rhain fel senarios A, B ac C yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae gwybodaeth am y farchnad a thrafodaethau â rhanddeiliaid wedi ein harwain i gredu mai canlyniad rywle rhwng Senarios B ac C sydd fwyaf tebygol ac felly mae'r ffigurau yn nhablau'r crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig ar yr ystod o gostau ac arbedion cost a gyfrifwyd o dan y ddwy senario hyn.

Gan gymharu Senarios B a C, mae costau darparwyr preifat (sy'n cael eu dangos yn yr adran 'Costau eraill' yn nhabl y crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol) ar eu huchaf o dan senario B ac ar eu hisaf o dan senario C. Y gwrthwyneb sy'n wir ar gyfer costau gweinyddol y sector cyhoeddus, lle mae'r costau'n is yn Senario B a chaiff pen uchaf yr ystod ei gyfrifo o dan senario C.

Felly, mae ychwanegu pen uchaf ystod costau'r sector preifat a phen uchaf ystod costau'r sector cyhoeddus yn arwain at gyfanswm anghywir, oherwydd eu bod yn deillio o wahanol senarios a gwahanol setiau o dybiaethau modelu. Caiff hyn ei nodi ym Mhennod 7 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ond rydym yn cydnabod y gallai fod wedi cael ei egluro'n fanylach yn y crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym Mhennod 6. Byddem yn rhagweld cyflwyno Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ôl cwblhau Cam 2, a gallwn gynnwys rhywfaint o naratif ychwanegol yn nhabl crynodeb Asesiad Effaith Rheoleiddiol Pennod 6 i egluro'r pwynt hwn.

Mae £2.3M o arbedion costau gweinyddol hefyd wedi'u nodi yn y crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae cyfanswm y gost fel y'i rhoddir yn y crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei gyflawni ar sail y costau gweinyddol net, h.y. y costau gweinyddol llai'r arbedion ar gostau gweinyddol.

Gan gymryd y ddau bwynt hyn gyda'i gilydd, a chan gofio bod y gwerthoedd unigol yn y crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn agored i gael eu talgrynnu, gobeithiwn fod y pwyntiau hyn yn egluro'r sail ar gyfer cyfrifo ystod cyffredinol y costau a amcangyfrifir yn y crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Rydych hefyd wedi mynegi pryderon am anghysondebau rhwng gwerthoedd yn y crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac yng nghorff yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym Mhennod 7. Mae rhai o'r anghysondebau ymddangosiadol rydych chi'n poeni amdanynt yn cael eu hegluro isod, ond rydym wedi nodi gwall yn Nhabl 7.13 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n amcangyfrif gwerthoedd ar gyfer elw a gollir gan y sector preifat mewn perthynas â'r cynigion ar ddileu elw preifat wrth ofalu am blant sy'n derbyn gofal. Mae'r gwerthoedd sydd wedi'u cynnwys ar gyfer Senarios B ac C ar gyfer blwyddyn ariannol 2034-5 yn anghywir – dylai'r rhain fod yn -£32,809,000 ar gyfer y ddwy senario.

Nid yw'r gwall hwn yn cael ei adlewyrchu yn y cyfansymiau a roddir yn y crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n gywir. Rhoddir y ffigyrau cywir hefyd yn [adroddiad ADSS Cymru](#), a gyhoeddwyd ar wahân. Fodd bynnag, byddwn yn diweddarau ac yn cywiro'r Memorandwm Esboniadol pan ddaw'r cyfle nesaf, ar ôl cwblhau trafodion Cam 2.

Byddai fy swyddogion yn fodlon ymgysylltu ymhellach â'r Pwyllgor yn ysgrifenedig os canfyddir unrhyw anghysondeb arall (y tu hwnt i'r pwyntiau a drafodir uchod a'r rhai a drafodir isod i ymateb i gwestiwn 3(c)), pe baech yn dymuno i'ch clerod ysgrifennu at fy swyddogion.

2. Newidiadau a goblygiadau ariannol yn ymwneud â 'dileu elw' i wasanaethau preswyl a maethu plant

- (a) O ran pa dystiolaeth ydych chi'n credu y bydd awdurdodau lleol yn gweld llai o gostau am wasanaethau preswyl a maethu dros y cyfnod arfarnu, yn enwedig gan fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn amlygu bod rhai o'r manteision gweithredol yn cael eu herio a dywedodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd nad yw cost lleoliadau cartref plant awdurdodau lleol yn is na chost lleoliadau gyda darparwyr preifat?**

Yn yr amcanestyniadau, rhagwelir y bydd cyflwyno gwasanaethau newydd gan awdurdodau lleol a darparwyr nid-er-elw yn arwain at ostyngiad o 10% mewn alldro cymharol (gwariant mewn cyfnod penodol). Mae'r

amcanestyniadau'n cynnwys cost datblygu darpariaeth newydd ar gyfer awdurdodau lleol ac nid-er-elw yn y costau trosiannol, gan gynnwys costau cyfalaf (ee ar gyfer cartrefi gofal preswyl i blant). Mae datblygu eu darpariaeth awdurdod lleol newydd eu hunain yn golygu, yn barhaus, nad oes angen i awdurdodau lleol dalu am ddefnyddio'r asedau cyfalaf hyn (ac eithrio costau dibrisiant).

Mae'n bwysig ystyried nifer o bwyntiau ehangach yn y cyd-destun hwn. Mae darparwyr preifat yn benodol, o ystyried eu sefyllfa bresennol o ran goruchafiaeth yn y farchnad, yn dylanwadu'n sylweddol ar brisiau, a'r hyn maent yn ei ddarparu ac ym mhle. Nid oes unrhyw gymhellant i ddarparwyr preifat leihau'r niferoedd mewn gofal ac mae rhai darparwyr yn gweld elw o fwy na 22%.

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r dull presennol o ddarparu gofal hefyd yn codi. Roedd y gwariant ar ofal preswyl oddeutu £198M yn 2022-23. Mae hyn wedi treblu ers 2016-17, pan oedd y gost oddeutu £65M am y flwyddyn.

Os na wnawn unrhyw beth, bydd awdurdodau lleol yn parhau i wynebu heriau ariannol cynyddol a fydd, yn eu tro, yn llesteirio eu gallu i siapio'r farchnad yn effeithiol er mwyn diwallu eu hanghenion, gan arwain at gostau uwch a lleoliadau annigonol, gyda'r holl broblemau cysylltiedig o ran ansawdd gofal, sefydlogrwydd, y gweithlu, a sicrhau'r ystod o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion plant.

Er bod yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn nodi nad yw'r gost i awdurdodau lleol o ddarparu eu lleoliadau cartref plant eu hunain yn is na chost caffael lleoliadau gan ddarparwyr preifat, roedd hefyd yn tynnu sylw at y ffaith fod y gost i awdurdodau lleol o ddarparu eu gofal maeth eu hunain yn is. Ac er y bu angen, er mwyn gwneud y cyfrifiadau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i ragdybio disodli lleoliadau gofal preswyl a maeth tebyg am debyg, nif fyddem yn disgwyl, mewn termau polisi, i hyn fod yn wir gan fod yr agenda dileu elw yn gorwedd mewn cyd-destun ehangach o annog y sector i leihau nifer y plant sy'n dod i ofal, ac i symud oddi wrth ddibyniaeth ar ofal preswyl tuag at fathau eraill o ddulliau i ddiwallu anghenion plant, gan gynnwys gofal maeth. Mae hyn yn golygu y gallai'r gofynion ar gyfer lleoliadau gofal preswyl i blant yn y dyfodol fod yn llai na'r hyn a ragwelwyd.

Bydd y newidiadau a gynigiwn yn ein galluogi i leihau a rheoli'r cynnydd parhaus yng nghostau lleoliadau preifat y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu ar hyn o bryd a chreu cyfleoedd paru gwell sy'n arwain at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc.

Bydd dod â gwasanaethau'n fewnol yn cefnogi dealltwriaeth sy'n cael ei harwain gan weithwyr cymdeithasol o batrymau mewn lleoliadau, a fydd yn galluogi dulliau o reoli capasiti'n rhagweithiol, a lleihau'r ras am leoliadau munud olaf a all arwain at baru is na'r safon a chostau uwch.

Rwy'n cydnabod pryderon CLILC, yn enwedig ynghylch cost gofal preswyl, ond er nad oedd hyn o fewn costau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae ein

hagenda drawsnewid yn rhagweld llai o ddibyniaeth ar ofal preswyl yn y dyfodol. Serch hynny, rwy'n gwerthfawrogi ei bod yn debygol y bydd angen lefel sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf ymlaen llaw mewn rhai ardaloedd a byddwn ni'n parhau i weithio gyda chydweithwyr o lywodraeth leol i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn eu gwaith cynllunio.

Rydym hefyd yn nodi pwynt ADSS Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei fod yn credu mai dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yw'r peth iawn i'w wneud, er gwaethaf yr heriau a'r risgiau

(b) Pa wahaniaeth cost y mae awdurdodau lleol yn ei weld am ddod â'u gwasanaethau yn fewnol ac a ydych wedi cynnal cynllun peilot i brofi'r potensial i wneud arbedion wrth ddarparu lleoliadau maethu, fel yr awgrymwyd gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd? Os felly, a allech roi gwybodaeth am yr hyn a ddangosodd?

Fel y nodwyd, roedd adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn argymhell y dylid sefydlu cynlluniau peilot mewn rhai awdurdodau lleol i brofi'r posibilrwydd o wneud arbedion drwy ddod â mwy o leoliadau maethu yn fewnol.

Er ein bod wrth gwrs yn gobeithio y bydd ein newidiadau'n cyfrannu at gynaliadwyedd ariannol gofal cymdeithasol plant yn y dyfodol, nid yw ein hymrwymiad i drawsnewid gwasanaethau plant yn ymwneud yn bennaf ag arbed arian. Mae'n ymwneud â newid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau i blant a'u teuluoedd fel rhan o wasanaethau lleol sydd â lles y person ifanc yn ganolog iddynt.

Mae gofalcwyr maeth yn ganolog i'r gwaith o gyflawni'r newidiadau yr ydym yn ceisio eu gwneud ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r cyflenwad o ofalcwyr maeth awdurdodau lleol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cyflenwad digonol o ofalcwyr maeth yn y dyfodol a hefyd yn helpu i gyflawni ein agenda trawsnewid ehangach i ailgydbwyso'r ddarpariaeth draw oddi wrth ofal preswyl tuag at ofal maeth. Rydym yn darparu cyllid sylweddol i Maethu Cymru i helpu i gyflawni ei darged uchelgeisiol o recriwtio 800 o ofalcwyr maeth ychwanegol erbyn 2026.

(c) Sut ydych chi wedi cyfrifo'r elw y disgwylir i ddarparwyr ei golli o ganlyniad i'r cynigion, gan adlewyrchu'r "ystod eang o fusnesau" yn y farchnad a pham mai cyn lleied o wybodaeth a ddarperir am yr amcangyfrifon yn yr Asesiad a'r adroddiad ar wahân gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Egwyddor arweiniol allweddol methodoleg yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol oedd cymesuredd. Wrth lunio amcangyfrifon, ceisiodd ADSS gydbwyso lefel y manylder a'r ymdrech sydd eu hangen i gasglu data newydd yn erbyn yr ystod o ganlyniadau posibl y gellid eu cyflawni. O ystyried bod amrywiaeth eang mewn modelau masnachol ac y bydd lefel yr elw gweithredol yn amrywio, nid

oedd ADSS wedi rhannu'r elw a gollir ar gyfer gwahanol gategorïau o fusnesau.

Yn y modelau a oedd wedi llywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, cyfrifodd ADSS yr elw posibl a gollir gan ddarparwyr er-elw o dan Senarios A, B ac C. Cyfrifwyd hyn drwy ystyried elw a gollir wrth i ddarparwyr er-elw adael y farchnad, ac yna ychwanegu'r elw uwch a geir yn ystod y cyfnod pontio ar sail y rhagdybiaeth y byddai'r darparwyr hyn yn cynyddu ffioedd i wrthbwysu costau disgwylidig sy'n gysylltiedig â chau.

Gan ddefnyddio 2022-23 fel y flwyddyn sylfaen ar gyfer prisiau, amcangyfrifodd ADSS y byddai tua £33M o elw y flwyddyn yn cael ei golli ar ôl i'r holl ddarparwyr er-elw adael y farchnad. Ar ôl iddynt adael y farchnad, cyfrifodd ADSS y byddai darparwyr er-elw yn colli elw sy'n cyfateb i 17% o'r alldro a ddosrennir ar hyn o bryd i'r garfan hon o ddarparwyr. Cafodd hyn ei fodelu ar lefel gyfanredol ac nid yw'n ystyried modelau busnes na modelau gweithredu gwahanol. Amcangyfrifwyd yr 17% gan ddefnyddio data gwybodaeth am y farchnad yng Nghymru a dadansoddiad o broffidioldeb Adroddiadau Marchnadoedd y DU ar gyfer Gwasanaethau Plant LaingBuisson (cwmnïau er-elw). Roedd y dadansoddiad hwn yn defnyddio maint EBITDA (Enillion Cyn Llog, Trethi, Dibrisiant ac Amorteiddio) safonol y diwydiant fel dangosydd cymharol o broffidioldeb. Er eglurder, nid oedd yr amcangyfrif o'r elw y mae disgwyl i ddarparwyr ei golli oherwydd y cynigion wedi cael ei ddefnyddio yn y cyfrifiadau i amcangyfrif y gost a'r manteision i'r sector cyhoeddus. Roedd y cyfrifiadau hyn ar wahân. Hynny yw, ni fyddai'r elw a gollir o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth yn cael ei ennill fel mater o drefn gan awdurdodau lleol.

Byddai symiau elw net gwahanol yn cael eu colli ar gyfradd wahanol ym mhob senario yn ystod y cyfnod pontio, gan adlewyrchu'r ffaith y byddai gwahanol gyfrannau o ddarparwyr er-elw yn ennill mwy o elw yn ystod y cyfnod pontio. Caiff y dybiaeth danategol a wnaed yn yr amcangyfrif hwn ei nodi yn [adroddiad ADSS](#) yn Nhabl 2 - Sut cafwyd costau trosiannol. Y rhesymeg sylfaenol yw y byddai darparwyr yn cynyddu ffioedd (ac felly canran yr elw) i wrthbwysu'r costau disgwylidig sy'n gysylltiedig â chau.

Mae rhai o'r effeithiau ar wahanol fathau o fusnesau hefyd yn cael eu hystyried ym Mhennod 8 y Memorandwm Esboniadol, yn yr asesiad o gystadleuaeth.

Rwyf wedi crybwyll yn fy ateb i gwestiwn 1(a) uchod ein bod wedi nodi gwall yn Nhabl 7.13 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n amcangyfrif gwerthoedd ar gyfer elw a gollir gan y sector preifat. Rwyf wedi nodi yno y cywiriad a wneir pan fyddwn yn diwygio'r Memorandwm Esboniadol ar ôl Cam 2.

- (d) Mewn ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y cynnig polisi, nodwyd y “teimlwyd bod amseriad arfaethedig cyflwyno'r gofynion ar gyfer darparwyr presennol ar 1 Ebrill 2027 yn rhy uchelgeisiol ac roedd yn peri risg i ddiogelwch plant a phobl ifanc sydd angen lleoliad**

sefydlog cofrestredig o ansawdd da". Er gwaethaf hyn, rydych yn bwriadu cadw at yr amserlen hon. A allwch esbonio pam hynny?

Y bwriad yw dod â darpariaethau perthnasol y Bil i rym fel y bydd yn rhaid i ddarparwyr newydd sy'n cofrestru ag AGC gael statws nid-er-elw o 1 Ebrill 2026 ymlaen; ac felly bydd darparwyr presennol "er-elw" yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol (i'w nodi mewn rheoliadau) o 1 Ebrill 2027 ymlaen. Mae hyn yn cynrychioli dechrau'r cyfnod pontio o ran cyfyngiadau ar y gallu i leoli.

Bydd y darpariaethau trosiannol yn atal darparwyr presennol rhag cofrestru cartrefi newydd neu gymeradwyo gofalfwyr maeth newydd. Fodd bynnag, bydd y darpariaethau hefyd yn golygu y bydd darparwyr presennol yn gallu lletya plant newydd yn amodol ar gymeradwyaeth, a geisir gan yr awdurdod lleol sy'n lleoli yng Nghymru, gan Weinidogion Cymru. Bwriad y strwythur pontio hwn, sydd wedi'i gynllunio'n ofalus, yw helpu i reoli'r risg o ddigonolrwydd yn ystod y cyfnod pontio, wrth i'r ddarpariaeth nid-er-elw gael ei hadeiladu, a sicrhau trosglwyddiad diogel, sefydlog a theg i'r system newydd. Os awdurdod lleoli yn Lloegr yw'r awdurdod lleoli, dim ond mewn amgylchiadau penodedig y bydd darparwyr yn gallu derbyn lleoliadau.

Pennir hyd y cyfnod pontio gan amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys lefel y galw am leoliadau mewn gwasanaethau cyfyngedig, a chyflymder y modd y mae darpariaeth nid-er-elw yn disodli darpariaeth nid-er-elw. Bydd unrhyw benderfyniad i ddod â'r cyfnod pontio hwn i ben yn cael ei lywio gan ystyriaeth ofalus o hawliau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn erthygl 8.

(e) Pa ragdybiaethau rydych wedi'u gwneud yn yr Asesiad am hyd y cyfnod pontio a beth fyddai'r goblygiadau ariannol pe bai angen ei estyn?

Mae'r amcangyfrifon cost ar gyfer Senarios A-C yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig ar gostau sefydlu darpariaeth newydd nid-er-elw dros dair blynedd, rhwng 2025-26 a 2027-8. Rhagwelwyd diwedd y flwyddyn ariannol 2027-28 fel y cynharaf y gellid cyrraedd lefel ddigonol o ddarpariaeth o bosibl, ar sail buddsoddiad dwys dros gyfnod o dair blynedd yn dechrau ym mis Ebrill 2025 (yn unol â'r Cydsyniad Brenhinol disgwylledig ar gyfer y Bil) ac yn rhychwantu'r cyfnod y mae'n ofynnol i ddarparwyr newydd sy'n cofrestru ag AGC fod yn endid nid-er-elw (o 1 Ebrill 2026 ymlaen), dechrau'r darpariaethau trosiannol (o 1 Ebrill 2027 ymlaen) ac wedyn un flwyddyn o gyfnod buddsoddi trosiannol hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 27/28 yn ystod y cyfnod trosiannol ei hun. Mae'r amcangyfrifon o'r costau hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ystyriaeth barhaus i geisiadau i gymeradwyo lleoliadau ychwanegol o 2027-8 ymlaen.

Dim ond nawr y mae bwriadau darparwyr o ran penderfyniadau i newid o bosibl i fodolau nid-er-elw yn dechrau dod i'r amlwg yn dilyn cyflwyno'r Bil. Felly, mae lle o bosibl i ddiweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y dyfodol wrth i'n dealltwriaeth o'r tebygolrwydd o senarios posibl ddatblygu drwy barhau i ymgysylltu â'r sector.

Os bydd y newid i ddarpariaeth nid-er-elw yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rhagwelir y byddai costau cysylltiedig yn cael eu hysgwyddo dros gyfnod hwy, ond hefyd y byddai'n cymryd mwy o amser i wireddu manteision y newid.

- (f) Dywed y Children's Homes Association fod ymatebion i arolwg ar ôl gweithdy Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2023 na fyddai unrhyw ddarparwyr annibynnol, ar y pryd, yn fodlon nac yn gallu trosglwyddo i fodel nid-er-elw. Sut fyddwch yn rheoli'r gwaith trosglwyddo os bydd cyfran sylweddol o ddarparwyr preifat yn ymadael â'r farchnad yn gyflym; sut y bydd capasiti yn cael ei gyflawni a pha adnoddau y bydd eu hangen ar gyfer y trosglwyddo.**

Drwy ein mecanweithiau ymgysylltu presennol a thrwy wybodaeth gan bartneriaid, byddem yn disgwyl cael rhybudd ymlaen llaw mewn llawer o achosion petai darparwyr yn dewis gadael y farchnad, gan roi amser i gynllunio darpariaeth arall. Mae gan awdurdodau lleol, fel comisiynwyr, brosesau a mecanweithiau rheoli ar waith hefyd i reoli achosion pan fo darparwyr yn gadael ac i drosglwyddo lleoliadau, a fyddai'n cael eu defnyddio mewn sefyllfaoedd o'r fath.

Byddwn i hefyd yn nodi ei bod yn debygol nad yw o fudd masnachol i ddarparwyr adael y sector yn gyflym tra bo'r darpariaethau trosiannol yn eu lle. Y rheswm am hyn yw y bydd y cyfnod yn eu galluogi i barhau i ennill rhywfaint o incwm o'u gwasanaethau (er yn amodol ar ganiatâd Gweinidogion Cymru), tra bo darpariaeth newydd yn cael ei sefydlu.

3. Newidiadau a goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r cynnig i ganiatáu taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus

- (a) Rydych yn tybio bod 110 o bobl ar draws yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn gohirio neu'n gwrthod trosglwyddo i Ofal Iechyd Parhaus ar hyn o bryd. Dywedodd Anabledd Cymru wrth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei bod yn ymddangos bod y rhif hwn yn eithaf isel. A allech ymateb i'r datganiad hwnnw?**

Mae'r ffigur o 110 o bobl yn seiliedig ar wybodaeth a gawsom gan swyddogion taliadau uniongyrchol awdurdodau lleol a phenaethiaid gwasanaethau oedolion drwy ein hymgysylltiad â nhw.

Ar hyn o bryd mae swyddogion taliadau uniongyrchol yn cefnogi'r ystod o unigolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol gofal cymdeithasol, gan gynnwys y rhai a fyddai'n debygol o gael eu hasesu i fod yn gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus, pe baent yn fodlon cael yr asesiad perthnasol.

Dyma'r dystiolaeth orau a gawsom ar gyfer amcangyfrif, drwy ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid. Fe fyddem, wrth gwrs, yn ystyried dystiolaeth arall gan rhanddeiliaid eraill, os darperir hynny.

- (b) Mae goblygiadau ariannol cyflwyno taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus wedi cael eu llywio gan brofiadau o weithredu Cyllidebau Iechyd Personol yn Lloegr, gyda chost taliadau uniongyrchol yn amrywio o £46,000 i £120,000 y pecyn. Er eich bod yn nodi ei bod yn debygol y bydd amrywiad tebyg ar draws pecynnau yng Nghymru, rydych wedi defnyddio cost pecyn cyfartalog o £50,000 yn yr Asesiad. A allech esbonio pam hynny?**

Er bod y costau'n amrywio, bwriedir i'r amcangyfrif o £50,000 gynrychioli'r ffaith y bydd rhai pecynnau'n costio mwy, a bydd rhai'n costio llai. Mae rhai o'r pecynnau gofal drutach ar gyfer pobl mewn cartrefi gofal, ac nid yw'n fwrriad i'r rhai sy'n derbyn Gofal Iechyd Parhaus fod yn gymwys i gael taliad uniongyrchol gan na fyddent yn prynu gwasanaethau i'w defnyddio yn eu cartrefi preifat eu hunain. Felly, nid yw'n briodol edrych ar y pecynnau drutaf a lleiaf drud yn unig a rhannu'r gwahaniaeth.

Mae wedi bod yn anodd iawn cael cost gyfartalog ar gyfer pecyn Gofal Iechyd Parhaus, o Gymru nac o Loegr. Yng Nghymru, er enghraifft, mae gan Fyrddau Iechyd Lleol systemau gwahanol o ran yr hyn a gynhwysir mewn pecyn Gofal Iechyd Parhaus, ac mae llawer yn casglu ystadegau gwahanol mewn gwahanol ffyrdd er mwyn bodloni gofynion mewnol.

O ganlyniad, penderfynwyd gofyn am gyngor gan yr Uned Comisiynu Gofal Cenedlaethol (NCCU). Mae'r amcangyfrif o £50,000 ar gyfer pecyn Gofal Iechyd Parhaus yn seiliedig ar y trafodaethau hyn gyda'r NCCU, sydd wedi ymgymryd â gwaith diweddar fel rhan o Ffrwd Waith Gofal Iechyd Parhaus Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd Llywodraeth Cymru.

- (c) Mae'r Asesiad yn mesur y gostyngiad mewn costau i awdurdodau lleol o bobl sy'n trosglwyddo o ofal cymdeithasol i daliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus fel rhai sy'n amrywio o £10.9 miliwn i £13.7 miliwn. Pam ydych wedi defnyddio'r budd mwyaf yn y crynodeb o'r Asesiad yn hytrach na'r ystod o werthoedd?**

Rydym wedi adolygu tablau crynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac rydym yn fodlon mai'r ffigur a gyflwynir ar gyfer yr amcangyfrif o'r gostyngiad mewn costau i awdurdodau lleol ac unigolion yw'r un cywir. Mae crynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi ffigur o £13.7M fel y gostyngiad cost cyfunol amcangyfrifedig ar gyfer awdurdodau lleol ac unigolion o ganlyniad i'r bwriad i gyflwyno taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus.

Mae'r crynodeb o arbedion costau yn Nhabl 7.39 yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi'r manylion y tu ôl i'r ffigur. Mae nodyn sy'n cyd-fynd â'r tabl yn egluro y gallai rhai arbedion costau fynd i unigolion, os ydynt yn cyfrannu at eu gofal ar hyn o bryd. Os felly, byddai hynny'n lleihau'r arbedion costau i awdurdodau lleol.

(d) Pa sicrwydd allwch ei roi bod y trefniadau gweinyddol a chymorth ar gyfer taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus, ynghyd â'u costau amcangyfrifedig, yn adlewyrchu profiad Byrddau Iechyd Lleol o becynnau Gofal Iechyd Parhaus presennol a phrofiad y llywodraeth leol o ofal cymdeithasol?

Rydym wedi ceisio dysgu o brofiad yn Lloegr a'r Alban, ac mae hyn wedi pwysleisio pa mor hanfodol i lwyddiant y cynllun yw darparu cefnogaeth i dderbynwyr taliadau uniongyrchol.

Bydd nifer o gostau gweinyddol yn gysylltiedig â gweithredu a gweinyddu taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus. Bydd y costau gweinyddol hyn yn talu am sefydlu a chyllido staffio, hyfforddi staff a chynorthwyyr personol, cefnogaeth cyflogwyr i'r rhai sy'n derbyn taliadau uniongyrchol ynghyd â sefydlu ochr dechnegol y cynllun (offer TG i gefnogi'r gwaith o gostio cyllidebau unigol, offer talu ac archwilio ar gyfer rheoli'r gwariant, systemau cyflogres ac ati).

Cynigir Hwb canolog ar gyfer rhai swyddogaethau gweinyddol allweddol er mwyn creu cronfa o staff arbenigol sy'n gallu delio'n effeithlon â rheoli'r elfennau taliadau uniongyrchol a sicrhau, cyn belled ag y bo modd, chwarae teg ledled Cymru i'r rhai sy'n cael Gofal Iechyd Parhaus drwy daliad uniongyrchol. Mae model yr Hwb yn seiliedig ar brosiect blaenorol gan Lywodraeth Cymru/GIG Cymru, a oedd yn rheoli nifer fawr o hawliadau ôl-weithredol am Ofal Iechyd Parhaus ledled Cymru drwy un tîm. Mae hefyd yn cyd-fynd â dulliau canolog a safonol eraill sy'n cael eu hystyried ar gyfer cipio data a rheolaeth ariannol Gofal Iechyd Parhaus. Credwn y gallai'r dull hwn fod yn fwy costeffeithiol na gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol unigol wneud eu trefniadau eu hunain i weinyddu taliadau uniongyrchol. Bydd hefyd yn sicrhau bod y gefnogaeth a'r cyngor yn gyson ledled Cymru.

Er mwyn amcangyfrif y gost gysylltiedig ar gyfer gweinyddu a threfnu, cynhaliwyd ymarfer cwmpasu i gael y darlun mwyaf cywir posibl, gyda swyddogion yn cael data costau gan gynrychiolwyr y sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd. Roedd hyn yn cynnwys data costau ar gyfrifon a reolir gyda chymorth; cyflogres; ffioedd sefydlu; a pheccynnau cymorth craidd.

4. Sut y caiff y darpariaethau yn y Bil eu monitro yn ogystal â'r gwariant ariannol cysylltiedig

(a) A wnaiff Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid ychwanegol i dalu am y cyfalaf a'r costau parhaus y disgwylir i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol eu hysgwyddo o ganlyniad i'r cynigion hyn; beth sy'n digwydd os nad yw'r gostyngiad amcangyfrifedig mewn alldro yn digwydd?

Rydym wedi bod yn ystyried yn ofalus y costau tebygol sy'n gysylltiedig â'r cynigion yn y Bil a'r ffordd orau o'u talu. Byddwn yn parhau i ystyried tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a sut mae hyn yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o effeithiau tebygol y cynigion, gan gynnwys y costau.

Gan fod y rhan fwyaf o'r costau tebygol yn ymwneud â dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal, byddaf yn delio â'r rhain yn gyntaf yn fy ateb, cyn troi at y costau tebygol sy'n gysylltiedig â thaliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus.

Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal

Fel pwynt ehangach, byddwn yn tynnu sylw at y ffaith, fel yr eglurwyd mewn ymateb i gwestiwn 2(a) uchod, os byddwn yn parhau i ddefnyddio cymysgedd o ddarparwyr gofal preswyl i blant (awdurdod lleol, nid-er-elw a phreifat), y bydd costau'n parhau i godi dros y blynyddoedd nesaf. Bydd arian cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau plant yn parhau i gael ei dynnu allan fel elw yn hytrach na chael ei ailfuddsoddi i wella gwasanaethau, capasiti a chanlyniadau i blant.

Bydd awdurdodau lleol yn parhau i wynebu heriau ariannol cynyddol a fydd, yn eu tro, yn llesteirio eu gallu i siapio'r farchnad yn effeithiol er mwyn diwallu eu hanghenion. Nid oes cymhelliant i ddarparwyr preifat leihau'r angen am ddarpariaeth, sy'n aml yn arwain at gostau uwch a lleoliadau annigonol, gan ddod ag amrywiaeth o broblemau cysylltiedig.

Dylai'r newidiadau sy'n cael eu gyrru gan gynigion i ddileu elw a rhaglen drawsnewid gwasanaethau plant yn ehangach, ein galluogi i leihau a rheoli'r cynnydd parhaus yng nghostau lleoliadau preifat y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu ar hyn o bryd a chreu cyfleoedd paru gwell sy'n arwain at ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc.

Bydd yr arbedion a fyddai'n cael eu creu drwy beidio â chyfeirio cyllid at ddarpariaeth breifat, a thrwy leihau ein dibyniaeth ar ofal preswyl, yn rhyddhau mwy o gyllideb yn y tymor hir ar gyfer adnoddau ataliol a therapiwtig a fyddai, yn eu tro, yn helpu gyda sefydlogrwydd lleoliadau, yn lleihau'r nifer sy'n dod i ofal, ac yn cynyddu nifer y rhai sy'n dychwelyd at eu teuluoedd.

Rwy'n cydnabod bod cyllid llywodraeth leol dan bwysau. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyflawni ein hymrwymiad i sicrhau cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol hon ac maent hefyd wedi trosglwyddo swm canlyniadol dilynol Llywodraeth y DU sy'n werth tua £14M o gyllid refeniw.

Rydym hefyd yn buddsoddi £68M yn ychwanegol yn y sector yn ystod 2022-2025 i helpu awdurdodau lleol i adeiladu darpariaeth gofal preswyl a maeth mewnol ac nid-er-elw, helpu i symud plant o ofal preswyl yn ôl i leoliad teulu, a darparu gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio'n lleol, gan gynnwys darpariaeth arbenigol i blant ag anghenion mwy cymhleth.

Byddwn yn ystyried dyfodol y gronfa hon, a pha gyfraniad y gallai ei wneud at gyflawni'r agendâu dileu elw a diwygio radical.

Bydd angen buddsoddiad cyfalaf mewn gwelyau a chartrefi ac rydym hefyd am adeiladu ar ein buddsoddiadau refeniw a chyfalaf ehangach ar draws gofal a chymorth ar gyfer gwasanaethau plant drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, y Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwysio Cyfalaf, a'r Gronfa Tai â Gofal. Mae swyddogion wrthi'n cwmpasu pa gyfraniad y gellid ei wneud yn y dyfodol o'r ffynonellau hyn, sydd eisoes wedi bod yn cyfrannu at yr agenda gyffredinol ar gyfer trawsnewid plant.

Nid oes cyllideb y cytunwyd arni gan Lywodraeth Cymru y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon, fodd bynnag, mae'r cynigion hyn yn flaenoriaeth uchel i'r Llywodraeth a byddant yn cael eu hystyried fel rhan o gylch y gyllideb sydd ar y gweill.

Rhagamcan o'r costau refeniw a sut y cânt eu talu:

Mae'r amcangyfrif o gyfanswm y gost i Awdurdodau Lleol a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol llai eu costau cyfalaf disgwylledig i brynu ac adnewyddu eiddo yn gadael cost rhwng £78.6M a £102.7M. Byddai'r costau hyn yn cynnwys costau comisiynu a chyfreithiol ychwanegol wrth i'r ddarpariaeth newydd ddod i mewn i'r ffrwd.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn amcangyfrif cost oddeutu £4.5M i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â gweithredu'r darpariaethau yn y Bil. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo cynlluniau digonolrwydd awdurdodau lleol a cheisiadau i Weinidogion Cymru i leoli plant mewn lleoliadau 'ychwanegol', cyfathrebu, ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth, datblygu canllawiau a deunyddiau hyfforddi, ac adrodd ar ddarpariaeth a gweithrediad ac adolygu hynny.

Mae'r ffigur hwn o £4.5M hefyd yn cynnwys y costau disgwylledig i Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â monitro a gorfodi a gofynion wedi'u newid mewn perthynas â chofrestru darparwyr newydd a darparwyr sy'n bodoli eisoes. Mae adnoddau ar gyfer tîm bach wedi cael eu cynnwys i gydnabod hyn, ynghyd â swm ar gyfer datblygu systemau TG pwrpasol i gefnogi'r newidiadau.

Mae gan Awdurdodau Lleol, drwy eu haelodaeth o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, fynediad at y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol – cronfa refeniw. Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, a sefydlwyd yn 2022, wedi dyrannu £146M rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2027. Mae'r gronfa'n ceisio creu newid system mewn modd cynaliadwy drwy integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ffocws ar chwe model cenedlaethol newydd o ofal integredig, ac un ohonynt yw 'Atebion ar Sail Llety'. Gallai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddewis cyfeirio'r cyllid tuag at gefnogi prosiectau sy'n gysylltiedig â datblygu darpariaeth nid-er-elw, h.y. costau staffio a sefydlu sy'n gysylltiedig â sefydlu gwasanaethau cartref gofal newydd i blant.

Disgwylir i'r gost refeniw i awdurdodau lleol gael ei wrthbwysu'n rhannol gan ostyngiad yn eu gwariant cyffredinol ar ofal preswyl a maeth plant (a nodir fel 'costau alldro' yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol) gan amcangyfrif y bydd yr arbediad rhwng £184M a £253.9M yn ystod y cyfnod o ddeng mlynedd.

Yn amodol ar gytuno ar gyllidebau yn y dyfodol, disgwylir i'r costau refeniw disgwyledig ar gyfer Llywodraeth Cymru gael eu talu o'r cyllidebau presennol. Ac, o ran costau eraill, mae'r maes gwaith hwn yn flaenoriaeth i'w ystyried yng nghyd-destun cylch y gyllideb sydd i ddod.

Rhagamcan o'r costau cyfalaf a sut y cânt eu talu:

Amcangyfrifwyd rhwng £107.1M a £142.8M ar gyfer awdurdodau lleol o ran costau cyfalaf i brynu ac adnewyddu eiddo i gymryd lle capasiti y gellid ei golli pan fydd darparwyr er-elw yn gadael y farchnad yng Nghymru. Amcangyfrifwyd hyn yn fwriadol ar sail geidwadol, gan ragdybio bod yr holl ddarpariaeth yn cael ei disodli tebyg-am-debyg. Er bod hwn yn ddull doeth o weithredu o ystyried na allwn ragweld yn bendant sut bydd y ddibyniaeth ar ddarpariaeth breswyl (er enghraifft) yn newid yn y cyfnod rhwng nawr a dechrau'r cyfnod pontio, byddem yn gobeithio y bydd y ddibyniaeth honno'n dechrau lleihau ac y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn faint o ddarpariaeth breswyl sydd ei hangen, ac felly yn y costau i awdurdodau lleol.

Mae hyn yn cael ei fynegi yn ein hagenda ehangach i drawsnewid gwasanaethau plant, sy'n ymwneud ag ail-lunio ac ailgydbwysu darpariaeth yn y dyfodol er mwyn i ni gael gwell modelau gofal mewn gofal preswyl, gyda mwy o blant yn cael eu lleoli mewn lleoliadau teulu gyda chymorth cofleidiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cefnogi awdurdodau lleol drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu eu darpariaeth gofal mewnol ers nifer o flynyddoedd drwy nifer o ffrydiau ariannu gwahanol. Mae ffrydiau cyllid cyfalaf yn y gorffennol a'r presennol yn cynnwys y Gronfa Gofal Integredig, y Gronfa Tai â Gofal a'r Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwysu Cyfalaf. Er bod y cronfeydd hyn ar gyfer dibenion ehangach na gweithredu'r Bil a'u bod yn canolbwyntio ar fodolau gofal integredig yn hytrach na thalu costau gofal cymdeithasol craidd, mae lle o fewn y meini prawf i gefnogi datblygiad gofal preswyl i blant.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol drwy'r mecanweithiau cyllido sefydledig hyn. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i Awdurdodau Lleol, fel y gwnânt yn awr, barhau i gyfrannu at ariannu costau darparu llety i blant sy'n derbyn gofal, fel rhan o'u cyllideb gofal cymdeithasol ehangach.

Dewisiadau benthyca:

Mae gan awdurdodau lleol bwerau i fenthyca at unrhyw ddiben sy'n berthnasol i'w swyddogaethau. Ochr yn ochr â ffynonellau cyllid eraill, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn edrych ar sut gallai'r pwerau hyn

fod yn berthnasol o ran benthyca mewn awdurdodau lleol i dalu am y costau cyfalaf a ragwelir.

Taliadau Uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus

Mae costau Gofal Iechyd Parhaus yn cynyddu'n sylweddol o'r naill flwyddyn i'r llall yng Nghymru ac maent wedi codi o £278M i £449M mewn llai na degawd (2014-2023).

Mae'r cynnydd mewn costau Gofal Iechyd Parhaus yn debygol o fod wedi digwydd oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio, cynnydd mewn clefydau cronig, newidiadau mewn ffordd o fyw, a chynnydd mewn costau gofal iechyd.

Mae'n bwysig pwysleisio, er bod profiad yn Lloegr yn tueddu i awgrymu y bydd pecynnau Gofal Iechyd Parhaus a ddarperir drwy daliadau uniongyrchol yn rhatach na phecynnau tebyg a gyflwynir yn y ffordd draddodiadol, nad yw ein newid arfaethedig yn cael ei sbarduno gan ystyriaethau ariannol. Mae'n cael ei yrru gan gais defnyddwyr gwasanaeth – pobl anabl neu bobl â chyflyrau iechyd hirdymor – am fwy o lais a rheolaeth y gallai taliadau uniongyrchol eu rhoi iddynt.

Mae'n bwysig nodi bod yr amcangyfrif o 110 o unigolion, sy'n anabl neu sydd â chyflwr iechyd hirdymor, sy'n gwrthod Gofal Iechyd Parhaus, yn gwneud hynny am eu bod yn teimlo nad yw'r system bresennol o Ofal Iechyd Parhaus yn diwallu eu hanghenion. Mae'r unigolion hyn yn teimlo y byddai derbyn Gofal Iechyd Parhaus heb daliad uniongyrchol yn arwain at golli llais a rheolaeth dros eu gofal. Pe bai'r system bresennol yn diwallu eu hanghenion o ran llais a rheolaeth, byddent eisoes yn rhan o gyfanswm costau Gofal Iechyd Parhaus y Byrddau Iechyd Lleol. Amcangyfrifwn mai dim ond 1.1% o garfan bresennol Gofal Iechyd Parhaus y maent yn ei gynrychioli.

Disgwylir i unrhyw gostau ychwanegol gael eu gwrthbwysu'n rhannol o leiaf gan ostyngiad yn y gost o ddarparu gofal i'r unigolion hynny sy'n cael Gofal Iechyd Parhaus traddodiadol ar hyn o bryd ond a fydd yn hytrach yn dewis derbyn taliad uniongyrchol yn y dyfodol.

Bydd angen i Fyrddau Iechyd Lleol gyllidebu ar gyfer y senario o achosion ychwanegol yn dod o fewn cwmplas Gofal Iechyd Parhaus yn ogystal ag unrhyw fudd tebygol yn sgil costau pecynnau presennol yn newid o ganlyniad i daliadau uniongyrchol.

Bydd costau gweinyddol yn gysylltiedig â gweithredu a gweinyddu taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus. Amcangyfrifir bod y costau hyn yn £1.1M y flwyddyn. Rhagwelir cyfnod pontio o dair blynedd (2025-26 i 2027-28) pan fydd Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu cymorth ariannol i dalu'r costau.

Dylai'r costau wedyn gael eu talu'n llawn gan Fyrddau Iechyd Lleol ar ôl y cyfnod pontio o dair blynedd, pan ddylid dechrau gwireddu rhai arbedion a fydd yn cael eu gwrthbwysu yn erbyn y costau a wynebier gan y Byrddau.

(b) Sut y byddwch yn monitro a yw'r cynigion yn cyflawni'r amcanion polisi a sut y mae costau cysylltiedig adolygiad ôl-weithredu yn cael eu hadlewyrchu yn yr Asesiad?

Bydd rhaglen o fonitro a gwerthuso parhaus yn sail i weithredu elfen dileu elw preifat y Bil. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol drwy Fwrdd Rhaglen Dileu Elw a sefydlwyd yn 2021 i gefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer amcangyfrif o gostau monitro a gwerthuso i Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Caiff yr amcangyfrifon cost hyn eu nodi yn Nhabl 7.14 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Rydym yn cydnabod y byddai angen i unrhyw werthusiad mwy ffurfiol ganolbwyntio ar y graddau y mae'r ddeddfwriaeth wedi cyfrannu at gyflawni'r newid ar draws yr ystod o ganlyniadau allweddol lle'r ydym yn disgwyl iddo wneud gwahaniaeth.

Byddwn yn parhau i fyfyrto ar gostau wrth i randdeiliaid, sydd wedi bod yn aros i weld y darpariaethau yn y Bil, ddechrau gwneud penderfyniadau am eu dyfodol.

Er mwyn asesu pa mor effeithiol yw taliadau uniongyrchol o fewn Gofal Iechyd Parhaus, byddwn yn comisiynu gwerthusiad annibynnol ar gyfer gweithrediad ac effaith y cynnig.

Fel rhan o'r gwerthusiad, byddem eisiau sicrhau ein bod yn clywed barn y rhai sy'n ymwneud â gweithredu'r cynnig, er mwyn helpu i siapio'r ddarpariaeth yn y dyfodol a sicrhau bod y cynnig yn cael ei gyflawni yn unol â'r bwriad.

Gallai canlyniadau y cytunwyd arnynt gynnwys gwella ansawdd bywyd; lleihau dibyniaeth unigolion ar ofal heb ei gynllunio; ac arbedion cyffredinol y pen, y flwyddyn ar gyfer derbynwyr Taliad Uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus.

Amcangyfrifir mai costau gwerthuso cyflwyno taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus fydd £90,000 dros 3 blynedd, h.y. £30,000 y flwyddyn am 3 blynedd rhwng 2025-6 a 2027-8. Nodir hyn yn nhabl 7.30 yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Cynigir mai Llywodraeth Cymru fydd yn talu'r gost hon.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

Drwy e-bost

19 Gorffennaf 2024

Annwyl Adrian,

Peilot Paru Data Fferylliaeth Gymunedol

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Mai a'r adroddiad cysylltiedig yn disgrifio canfyddiadau ac argymhellion y peilot paru data fferylliaeth gymunedol gan Archwilio Cymru. O ystyried maint y gwariant cyhoeddus ar feddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol, mae mynd i'r afael â thwyll a gwallau o bwys sylweddol ac rwy'n ddiolchgar i chi a'ch cydweithwyr am gymryd yr amser i ymchwilio mor drylwyr i risg yn y sector fferylliaeth gymunedol.

Rwy'n arbennig o falch na wnaeth y peilot dwys hwn, a oedd yn cynnwys bron i 30% o fferyllfeydd yng Nghymru dros gyfnod o dair blynedd, ganfod unrhyw dystiolaeth o dwyll na gwallau systemig. Rwy'n credu bod y canfyddiadau hyn yn debygol o fod yn gynrychioliadol o ystyried maint mawr y sampl, y cymysgedd o fferyllfeydd yn y sampl a'r presgripsiynau a ddosbarthwyd, a hyd cyfnod y gwaith maes. Mae'r adroddiad felly'n rhoi sicrwydd sydd i'w groesawu yn y maes hwn sy'n wynebu gwariant uchel a chraffu.

Er nad ydych yn gwneud argymhellion penodol. Rydych chi'n gofyn tri chwestiwn y dylai GIG Cymru eu gofyn iddo'i hun, o ystyried canfyddiadau eich peilot.

A ydych yn fodlon ar y dulliau presennol ym mhob bwrdd iechyd, ac ar draws GIG Cymru, i adnabod ac ymchwilio i allanolion mewn perthynas â chost uchel a risg o dwyll ar gyfer gweithgarwch contractwyr dosbarthu?

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel yr wyf wedi nodi uchod mae'r adroddiad yn rhoi llawer o sicrwydd gan nad oedd archwilyr yn gallu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o dwyll neu wallau systemig yn y sector fferylliaeth gymunedol. Wrth gwrs, ni allwn laesu dwylo o ystyried y gallai fod rhai mathau o weithgarwch twyllodrus na ymchwiliwyd iddynt gan y peilot, neu dwyll a all fod yn digwydd mewn byrddau iechyd nad oeddent wedi'u cynnwys yn y sampl.

Mae enghreifftiau o arferion twyllodrus arwyddocaol wedi digwydd yn y sector fferylliaeth gymunedol, fel y rhai a ddisgrifir yn yr adroddiad. Mae'n galonogol bod yr achosion hanesyddol hyn wedi'u canfod gan fyrddau iechyd gan weithio'n agos gyda Gwasanaethau Gwrth-dwyll y GIG, trwy archwiliadau cadw cydbwysedd sy'n dyddio'n ôl i'r amser cyn y peilot.

Nododd y peilot risgiau mewn tri phrif faes: camgymeriadau prisio, eitemau drud ac archebion arbennig.

O ran camgymeriadau prisio, mae rhwng 6 miliwn a 7 miliwn o bresgripsiynau yng Nghymru yn cael eu prosesu i'w talu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru bob mis. Mae cywirdeb y taliadau am bresgripsiynau yn gyson uchel, gyda chyfradd gwallau o ddim ond tua 1 o bob 1000 o'r presgripsiynau a brosesir. Pan fydd camgymeriadau prosesu yn digwydd, maent yr un mor debygol o arwain at dandaliadau i fferyllfeydd ag y maent o arwain at ordaliadau gan y GIG. Dim ond gordaliadau yr oedd gwaith Archwilio Cymru yn ei ystyried, ac felly mae'n debygol y byddai ymchwiliad pellach i wallau yn dileu unrhyw arbedion posibl i'r GIG dros amser. Cytunir ar lefel y cywirdeb prisio rhwng y GIG a Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar ran y contractwyr fferylliaeth, felly nid ydym yn bwriadu cymryd unrhyw gamau pellach i fynd i'r afael â thandaliadau a gordaliadau. Fodd bynnag, bydd yn parhau i fod yn bosibl i wneud cywiriadau mewn perthynas â gwallau unigol ar sail ad hoc.

Gan droi at eitemau drud, rwy'n cytuno bod gwiriadau ychwanegol gan fyrddau iechyd yn debygol o wella sut mae risgiau'n cael eu rheoli yn y maes hwn. Er fy mod yn ymwybodol efallai fod byrddau iechyd yn cynnal rhai gwiriadau ar bresgripsiynau drud eisoes, mae archwiliadau o'r fath yn canolbwyntio'n gyffredinol ar bresgripsiynydd y feddyginiaeth yn hytrach na'r fferyllfa lle cafodd ei dosbarthu. Rwy'n cytuno â'ch asesiad y byddai gan fyrddau iechyd fwy o sicrwydd pe bai archwiliadau ychwanegol yn cael eu cynnal ar fferyllfeydd sy'n dosbarthu nifer fawr o bresgripsiynau drud. Felly, byddwn yn cyflwyno tri cham i wella'r gwaith y mae byrddau iechyd yn ei wneud yn y maes hwn.

Yn gyntaf, rydym wedi comisiynu Uned Cymorth Rhagnodi Dadansoddol Cymru (WAPSU) i ddatblygu dangosfwrdd rhyngweithiol o eitemau drud y gall byrddau iechyd gael mynediad iddo a'i ddefnyddio i nodi presgripsiynau drud sy'n cael eu rhoi gan ymarferwyr cyffredinol ac adrannau cleifion allanol mewn ysbytai yn eu hardal. Mae'r dangosfwrdd yn caniatáu i ddefnyddwyr y byrddau iechyd gael mynediad at ddata cyfanredol ac unigol a, bresgripsiynau, gan gynnwys y delweddau o bresgripsiynau unigol a gedwir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Yn ail, byddwn yn gweithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ddatblygu adroddiad misol sy'n manylu ar yr eitemau drud sy'n cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd ym mhob ardal bwrdd iechyd a sicrhau bod yr adroddiad hwn ar gael yn rheolaidd i fyrddau iechyd.

Yn olaf, byddwn yn ysgrifennu at fyrddau iechyd gan ddarparu gwybodaeth am y dangosfwrdd rhyngweithiol a'r adroddiad o eitemau drud mewn fferyllfeydd cymunedol. Byddwn yn gofyn iddynt gadarnhau pa drefniadau y byddant yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod yr offer newydd yn cael eu defnyddio i leihau'r risg y bydd twyll neu wallau yn digwydd o fewn y bwrdd iechyd.

A yw gwersi allweddol ac arfer gorau mewn perthynas â'r materion hyn yn cael eu rhannu rhwng byrddau iechyd? Er enghraifft, a yw'r byrddau iechyd yn rhannu enghreifftiau o ble y mae twyll wedi cael ei adnabod i'w gwneud yn ymwychodol o risgiau?

Rwy'n cytuno ei bod yn debygol y bydd manteision sylweddol yn deillio o rannu'r gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau rhwng byrddau iechyd. Felly, byddwn yn ysgrifennu at Bennaeth Gwasanaethau Gwrth-dwyll y GIG yng Nghymru a Chyfarwyddwyr Fferylliaeth pob bwrdd iechyd yn gofyn pa drefniadau y gellid eu rhoi ar waith i hwyluso rhannu gwybodaeth o'r fath.

A oes cyfle i'r GIG yng Nghymru roi rheolaethau cost-effeithiol ychwanegol ar waith mewn perthynas â chostau amrywiol Archebion Arbennig?

Mae archebion o feddyginiaethau arbennig yn aml yn llawer drytach na meddyginiaethau trwyddedig, oherwydd natur bwrpasol y cynnyrch ac mae'n cynnwys costau dod o hyd i ddeunyddiau crai, gweithgynhyrchu, rheoli ansawdd, neu fewnforio cynnyrch a'u dosbarthu.

Mae natur archebion arbennig yn eu gwneud yn llawer mwy tebygol amrywio yn eu prisiau. Mae hyn yn deillio o newidiadau i brisiau deunyddiau crai neu o'r angen brys i weithgynhyrchu archebion arbennig lle gallai tâl ychwanegol fod yn daladwy i'w ddanfon yn gyflymach.

Mae camau wedi cael eu cymryd dros nifer o flynyddoedd i leihau costau archebion meddyginiaeth arbennig i'r GIG. Yn 2011, cyflwynwyd prisiau ad-dalu safonol ar gyfer yr archebion meddyginiaeth arbennig y rhoddir presgripsiwn ar eu cyfer amlaf (er enghraifft hylifau, hufenau ac eli a wnaed i fformiwla unigol). Rhwng 2018, pan ddechreuodd Archwilio Cymru ar ei waith maes, a 2023 gostyngodd cyfanswm y gwariant blyneddol ar y meddyginiaethau hyn fwy na 50% (o £1.01 miliwn i £0.48 miliwn y flwyddyn) o ganlyniad i'r newidiadau.

Yn fwy diweddar ym mis Mawrth 2022, gwnaed newidiadau pellach i leihau costau meddyginiaethau heb drwydded, wedi'u fewnforio, trwy gymell contractwyr fferylliaeth i ddod o hyd i'r meddyginiaethau hyn am y pris rhataf posibl, gan leihau amrywiad a phrisiau gormodol nad ydynt yn adlewyrchu cost gweithgynhyrchu'r archebion meddyginiaeth arbennig. Yn y flwyddyn gyntaf yn dilyn y newidiadau pellach hyn, gostyngodd costau cymaint â 5% (o £0.65 miliwn i £0.62 miliwn).

Mae costau ad-dalu archebion meddyginiaeth arbennig wedi bod yn destun craffu ers nifer o flynyddoedd gan gynnwys fel rhan o [ymgyngoriad](#) gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU yn 2019. Mae amryw o ddulliau, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr fferylliaeth gael dyfynbrisiau gan sawl gweithgynhyrchwr, ceisio cymeradwyaeth ganolog i osod archebion, a gwasanaeth caffael cenedlaethol ar gyfer

archebion meddyginiaeth arbennig, i gyd wedi'u cynnig a'u hystyried fel rhai sy'n annhebygol o arwain at arbedion cost sylweddol.

O ystyried y newidiadau a wnaed ers gwaith maes Archwilio Cymru, yr ymgynghoriad blaenorol a'r dadansoddiad o opsiynau, a'r gostyngiad sylweddol mewn costau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid wyf o'r farn fod yr un potensial yn bodoli i gyflawni'r arbedion a amcangyfrifwyd gan Archwilio Cymru yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, mae potensial o hyd i fyrddau iechyd adolygu presgripsiynau unigol ar gyfer archebion meddyginiaeth arbennig cost uchel y gellid eu disodli gyda meddyginiaeth trwyddedig safonol, rhatach. Bydd y dangosfwrdd rhyngweithiol ar gyfer eitemau drud a ddatblygwyd gan WAPSU yn cefnogi byrddau iechyd i nodi cyfleoedd ychwanegol i gwestiynu'r achosion pan fo meddyginiaeth arbennig didrwydded drud yn cael eu rhoi ar bresgripsiwn.

Hyderaf fod yr wybodaeth hon yn dangos y camau yr ydym yn eu cymryd i sicrhau bod twyll yn cael ei nodi a'i atal lle bo hynny'n bosibl yn y sector fferylliaeth gymunedol yng Nghymru. Bydd y camau ychwanegol y byddwn yn eu cymryd o ganlyniad uniongyrchol i'r peilot paru data yn cryfhau dulliau gweithredu byrddau iechyd ymhellach ac rwy'n ddiolchgar i chi a'ch cydweithwyr am eich diddordeb a'ch cymorth yn y maes pwysig hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Phwyllgor Cyllid Senedd Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir,



Andrew Evans FRPharmS
Prif Swyddog Fferyllol/Chief Pharmaceutical Officer
Llywodraeth Cymru/Welsh Government



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol y
Bont-Faen, Caerdydd
CF11 9AD

Eitem 2.11
Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD

21 Awst 2024

Russell George AS
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Annwyl Russell a Mark,

Ymateb dilynol lechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) i Graffu Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru ar Adroddiad Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Darparodd IGDC ei ymateb i adroddiad ar y cyd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 16 Awst 2023. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 16 o argymhellion, ac ymatebwyd i bob un ohonynt.

O'r 16 argymhelliad, roedd angen diweddariad pellach ar 3 argymhelliad erbyn diwedd 2023 ac roeddem yn falch o gyflwyno'r diweddariad ar 19 Rhagfyr 2023.

Roedd angen diweddaru 3 argymhelliad pellach erbyn diwedd mis Chwefror 2024. Cyflwynwyd yr ymateb ar amser.

Roedd argymhelliad arall yn gofyn am ymateb wedi'i ddiweddaru ar ddiwedd mis Mehefin 2024. Cyflwynwyd hwn ar ddechrau Gorffennaf 2024.

Mae angen diweddariadau erbyn diwedd Awst 2024 ar gyfer y tri argymhelliad a ganlyn:

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf bob chwe mis i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar y cynnydd o ran darparu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Dylai'r diweddariadau gynnwys gwybodaeth am wariant hyd yma, gwariant arfaethedig, nifer y byrddau Iechyd ac awdurdodau lleol sy'n manteisio ar WCCIS, ac ymgysylltu neu ymgynghori â phartneriaid perthnasol.

02920 500 500

igdc.gig.tudalen.ylpecyn.wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol y
Bont-Faen, Caerdydd
CF11 9AD

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD

Diweddariad: Darllenwch ein [Papurau Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni](#) a gyhoeddwyd ar wefan IGDC. Mae'r papurau'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf o ran darpariaeth System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.

Argymhelliad 10: Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu rhagor o dystiolaeth ynghylch y systemau adnoddau dynol a'r capasiti sydd ar gael i hwyluso'r gwaith o recriwtio a chadw pobl â sgiliau arbenigol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth sy'n nodi ble mae'r bylchau allweddol a'r swyddi gwag, sut mae camau gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau yn cael eu blaenoriaethu, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r risgiau i gyflawni sy'n deillio o'r swyddi gwag. Yn dilyn darparu'r wybodaeth hon yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai IGDC roi diweddariadau cynnydd pob chwe mis i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Diweddariad: Mae Grŵp Adnoddau Strategol, a sefydlwyd yn 2022, wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol gyda chynrychiolaeth lefel uwch ar draws y sefydliad, yn cyfarfod bob mis i sicrhau bod bylchau sgiliau presennol ac yn y dyfodol yn cael eu nodi ac yn cael sylw gyda chynllun adnoddau digonol i liniaru'r risgiau sy'n codi o swyddi gweigion nawr ac yn y dyfodol. Fe wnaethom eich cyfeirio'n flaenorol at [Bapurau Bwrdd Ionawr 2024 IGDC](#) am ddiweddariad ar Gynllunio Gweithlu Strategol a gallwn gadarnhau bod diweddariad pellach i'w gyflwyno i'n Bwrdd ym mis Medi 2024. Rhoddir manylion pellach am feysydd ffocws isod:

Oherwydd y strwythur ariannu presennol ar gyfer nifer sylweddol o'n rhaglenni, mae'n rhaid i ni ddefnyddio contractau cyfnod penodol, gan nad yw cyllid rhaglenni yn rheolaidd. Eleni rydym wedi neilltuo tua £3.6m i staff cyfnod penodol i gefnogi rhaglenni sydd â chyllid heb ei gadarnhau ar hyn o bryd y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Wrth i bobl gyrraedd chwe mis olaf eu contractau heb unrhyw gysur o ran cyllid parhaus, mae perygl y byddant yn dechrau chwilio am swyddi eraill, gyda GIG Cymru o bosib yn colli sgiliau digidol sylweddol.

Comisiynodd IGDC waith i ddatblygu Cynnig Buddsoddiad Digidol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Ofal Iechyd i Lywodraeth Cymru i wneud cais am gyllid ac i ddatblygu adroddiad ategol Aeddfedrwydd Digidol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Ofal Iechyd (AHPs) a Gwyddonwyr Gofal Iechyd (HCS): adroddiad cynnydd a chatau nesaf. Roedd y cynnig buddsoddiad yn ceisio mabwysiadu dull tebyg i'r buddsoddiad mewn gwybodeg glinigol ym maes nyrsio. Ymgynghorwyd ar y cais yn genedlaethol ac fe'i cefnogwyd gan grwpiau gan gynnwys Cyfarwyddwyr Digidol, Prif Swyddogion Gwybodaeth Glinigol, Cyfarwyddwyr/Dirprwy Gyfarwyddwyr Cyllid, Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Chyfarwyddwyr Cynllunio. Cymeradwyodd Panel Buddsoddi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru egwyddor y cynnig a'i bwysigrwydd strategol ddydd Gwener 23 Tachwedd 2023, ond dywedodd fod y Gronfa Buddsoddi

02920 500 500

igdc.gig.cymru.nhs.wales

Tudalen 58 o 58

â Blaenoriaethau Digidol (DPIF) wedi'i hymrwymo'n llawn dros y ddwy flynedd ariannol nesaf, felly ni allai'r Panel gefnogi gofyniad ariannol y cynnig ar y pryd hwnnw. Cwblhawyd yr adroddiad atodol gyda'r camau nesaf ym mis Mawrth 2024.

Mae IGDC wedi buddsoddi cyllid i gefnogi sefyllfa strategol y rolau 'Prif Swyddog Gwybodaeth Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Ofal Iechyd' (yn barhaol) ac 'Uwch Wybodegydd Clinigol' (tymor penodol) a nodir yn y cais cenedlaethol. Bydd swydd y Prif Swyddog Gwybodaeth Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Ofal Iechyd yn ategu rolau presennol o fewn Tîm Gwybodeg Glinigol IGDC, gan gynnwys y Prif Swyddog Gwybodaeth Nyrsio (CNIO) a Phrif Swyddog Gwybodaeth Fferylliaeth (CPIO), gydag atebolrwydd proffesiynol i Gyfarwyddwr Gweithredol Meddygol IGDC/Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol Cymru. Rhagwelir y bydd y recriwtio hwn wedi'i gwblhau erbyn hydref 2024 a bydd yn galluogi cynllunio a gwneud cynnydd ar gamau nesaf yr elfen hon o'r agenda ddigidol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Argymhelliad 15: Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ymgysylltu â'i sefydliadau partner i werthuso ei ddulliau cydweithredu presennol, a nodi meysydd i'w gwella a chyfleoedd i gryfhau perthnasoedd. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru amlinellu sut bydd yn cynnal y gwerthusiad hwn. Yna, bob chwe mis, dylai roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar sut mae'n cydweithio â'i bartneriaid a'r hyn y mae cydweithredu o'r fath wedi'i gyflawni.

Diweddariad: Cyfeiriwch at ein [Papurau Bwrdd mis Mai 2024](#) a gyhoeddwyd ar wefan IGDC a oedd yn cynnwys diweddariad manwl yn amlinellu cynnydd yn erbyn ein [Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid](#). Mae gennym raglen ymgysylltu sefydledig sy'n cynnwys sesiynau strategol rheolaidd gyda'n partneriaid allweddol i gefnogi darpariaeth gydweithredol o gynlluniau ar y cyd y cytunwyd arnynt. Caiff hyn ei adolygu'n rheolaidd gyda phartneriaid a chafodd ein hymgysylltiad strategol â phartneriaid GIG Cymru ei fireinio'n ddiweddar yn unol ag adborth a rannwyd ac mewn aliniad â chylchoedd cynllunio.

Mae diweddariad mis Mai 2024 ar ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dangos bod cynnydd wedi'i wneud yn erbyn ein Cynllun Ymgysylltu, gyda ffocws gwirioneddol ar ddatblygu ein partneriaethau strategol gyda phartneriaid GIG Cymru a sefydliadau masnachol allweddol, a grymuso a chefnogi staff ar draws IGDC. Mae llawer i'w wneud o hyd yn yr hinsawdd heriol hon, gyda chydberthnasau a chyflawni yn cael eu profi ar draws y system. Mae'n hanfodol sicrhau ein bod yn buddsoddi mewn ymgysylltu a rheoli ein perthnasoedd.

Comisiynodd IGDC sefydliad annibynnol i gynnal adolygiad rhanddeiliaid, i gynnwys cyfweiliadau ac adborth o arolygon rhanddeiliaid ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid, i ategu ein gwaith mewnol. Mae hyn wedi cyrraedd camau olaf y



Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol y
Bont-Faen, Caerdydd
CF11 9AD

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD

dadansoddi a bydd yn helpu i lywio ein hymagwedd barhaus at ymgysylltu â rhanddeiliaid. Byddwn yn parhau i ddarparu diweddariadau bob chwe mis i'n Bwrdd.

I gloi, rydym wedi darparu diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgorau ers cyhoeddi argymhellion yr adroddiad. Gellir dod o hyd i ddiweddariadau ar gynnydd y gwaith o ddarparu rhaglenni mawr, gan gynnwys Ap GIG Cymru a WCCIS, ar [wefan y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni](#) wrth symud ymlaen. Parheir i fynd â diweddariadau am Ymgysylltu â Phobl a Sefydliadol a Rhanddeiliaid i'r Bwrdd AIA, gyda phapurau ar gael ar [wefan IGDC](#). Oni bai eich bod am gael diweddariadau pwrpasol penodol, byddwn yn cymryd bod hyn yn ddigon o ran diweddariadau yn y dyfodol yn erbyn pob un o'r argymhellion.

Yn gywir,

Helen Thomas
Prif Weithredwr

Simon Jones
Cadeirydd

**Y Pwyllgor Iechyd a
Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care
Committee**

Alex Howells
Prif Weithredwr
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

4 Gorffennaf 2024

Annwyl Alex

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn cynnal ymchwiliad i gefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig. Mae'r weledigaeth o ofal sy'n canolbwyntio ar unigolion yn cael ei rhannu'n eang, ac felly rydym wedi bod yn edrych ar sut i fwrw ymlaen â'r broses o'i rhoi ar waith yn ymarferol i gefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig yn well. Rydym hefyd wedi bod yn ystyried a yw Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn gwneud digon i fynd i'r afael â heriau'r nifer gynyddol o bobl sy'n byw gyda chyflyrau lluosog a sut i'w trin yn gyfannol.

Rydym wedi clywed bod pwysau ar y gweithlu yn effeithio ar lawer o feysydd iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys staff mewn gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol, gweithwyr gofal cartref, a gweithwyr cymdeithasol. Awgrymwyd hefyd bod angen gwaith cynllunio gwell o ran y gweithlu i ddiwallu anghenion poblogaethau'r dyfodol. Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth am y canlynol:

- Beth mae AaGIC yn ei wneud i gefnogi iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion y rhai sy'n byw gyda chyflyrau cronig; ac
- O ystyried y rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n byw gyda chyflyrau cronig yn cynyddu, gan roi pwysau ychwanegol ar iechyd a gofal cymdeithasol, pa waith y mae AaGIC yn ei wneud i nodi tueddiadau a ragwelir yn y boblogaeth ac ymateb iddynt.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallem gael eich ymateb erbyn **dydd Gwener, 2 Awst 2024**.

Yn gywir



Sam Rowlands AS
Cadeirydd Dros Dro, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Eitem 2.13



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Tŷ Dysgu, Cefn Coed,
Nantgarw CF15 7QQ

Ffôn | Tel: 03300 585 005

Ebost | Email: heiw@wales.nhs.uk

Gwefan | Web: aagic.gig.cymru/
heiw.nhs.wales

Our Ref: AH/cw

Date: 13 September 2024

Sam Rowlands MS
Temporary Chair
Health and Social Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
CF99 1SN

Dear Sam

Thank you for your request and many apologies for the delay in responding. Health Education and Improvement Wales is responsible for developing the healthcare workforce in Wales through a range of statutory functions that include education and training, workforce planning and insights, careers and attraction, workforce transformation and leadership development. Chronic conditions encompass a very wide range of specialties and professions, and whilst we don't have a specific focus on each individual condition, there are many aspects of our work programme that support the development of the chronic conditions workforce as outlined below:

Education and Training Commissioning – We are now training a record number of health professionals in Wales. This includes the undergraduate training we commission from HEIs for professions such as nursing, Allied Health Professions and Health Care Science; the postgraduate medical training which includes specialty training and GP training; and other forms of post registration training such as Advanced Practice. The numbers of people we train in each profession is informed by information included in the Integrated Medium-Term Plans from individual NHS organisations. Continuing to invest in our future pipeline of staff is critical.

Primary Care Education and Training - We have also invested in education and training for the multi professional teams in primary care through a network of innovative Primary Care Academies based in each Health Board area. These are especially important as clearly chronic conditions and frailty should be managed predominantly in the community (Right place, right person, right time, right skills). The Academies provide the opportunity to develop skills needed to support prevention, ongoing management and urgent care. This can be shown in an example such as GP nurses who gain community experience as a nursing student, then skills of prevention and basic chronic conditions management as part of our new General Practice Nursing Foundation Programme, then specialist chronic conditions management skills (diabetes, respiratory, chronic heart disease, independent prescribing, medication reviews) are supported through the post-

Cadeirydd | Chairman: Dr Chris Jones

Prif Weithredwr | Chief Executive: Alex Howells

Pencadlys HEIW | HEIW Headquarters, Tŷ Dysgu, Cefn Coed, Nantgarw CF15 7QQ

Ffôn | Tel: 03300 585 005

Tudalen y pecyn 62

registration education and training fund. The Academy infrastructure is developing, and at maturity, will be able to identify those staff with learning needs related to delivering long term condition care and facilitate appropriate education and training. They will also be in a position to enable Health Boards to take a prioritised approach to the use of HB allocated education and training funds. Where management of chronic conditions is prioritised, education and training is available including independent and supplementary prescribing training. It is essential that investment in the Academies is maintained given our ambitions for primary care in Wales.

From an education and training perspective we are therefore supporting chronic conditions management through:

- Nursing student placements – opportunities to learn basic clinical and communication skills for LTC management and inspire new registrants to take up a career in primary and community care
- GPN Foundation Programme – prevention and essential LTC management skills
- GP Specialty training – urgent and ongoing management of LTCs and frailty in general practice and urgent primary care settings
- SPQ Community Nursing – General Practice and District Nursing – enhanced skills development in a range of LTCs
- Independent Prescribing – community pharmacy, GP pharmacy, nursing, physiotherapy, podiatry, paramedicine to review and prescribe for the management of LTCs.
- Advanced Clinical Practice – primary care (general practice) – management of LTCs included
- Health Care Support Worker Development – Level 3 apprenticeship – supports development and maintenance of skills to support management of LTCs including diabetes, respiratory, cardiovascular disease, wound care.
- Mental Health enhanced skills – through post registration E&T fund
- Integrated Care GP Fellowship (iGP) – enable a HB to identify a priority area e.g. frailty, diabetes, respiratory and support local GP to gain advanced skills to support LTC management in the community as part of an integrated service bridging GP and specialist services.
- Last year as part of the seedcorn monies a number of courses were provided in this area such as spirometry training and LTC updates.

Strategic Workforce Plans - We are currently working through the strategic workforce plans that were identified in the Welsh Government's National Workforce Implementation Plan. These plans include mental health, pharmacy, diagnostics, primary care, dental, nursing, maternity and neonatal, genomics. The mental health, pharmacy and primary care plans will take forward a number of actions that will strengthen, support and expand the workforce in these areas which have a critical role for people with chronic conditions. For example. our Allied Health Profession Pathfinder projects which are creating innovative approaches to support people with a variety of mental health needs, and our Musculo Skeletal Capability Framework which is going to be launched soon. The mental health workforce plan has received WG funding in full, however the plans are being addressed within existing resources and targeted investments given the current financial context.

Supporting Workforce Planning – We agree that there needs to be a focus on better workforce planning and we provide a range of resources and support to NHS organisations to ensure that collectively we are planning a future workforce that will be able to meet the needs of our population. These include better access to data and analytics, scenario planning and workforce planning guidance for areas like primary care.


Interface with National Programmes - Over the last few years we have been working closely with each of the four National Programmes (Mental Health, Primary Care, Urgent and Emergency Care, Planned Care) to ensure that workforce solutions are developed to respond to the national service priorities and challenges. As an example, we are working the National Six Goals Programme in Urgent and Emergency Care with regards to Future Care Planning for those living with chronic conditions and frailty, as well as

hosting education resources to support frailty awareness on our new learning management system Y Ty Dysgu.

Future Planning – We believe that the delivery of healthcare will require radical change to meet future needs, and this will drive substantial rethinking of digital and workforce plans, on at least a 10-15 year horizon. Technology enabled care opens up exciting opportunities to rethink self-care for people with chronic conditions and therefore reimagine what is needed from the workforce. We have implemented a Digital Capabilities Framework that enables staff to self-assess digital literacy and support staff to engage with digital solutions. In future this will ensure that staff can support patients through a combination of apps and wearable devices that can facilitate high standards of care. This requires a collective effort across NHS Wales, and we are keen to support this with a long term workforce plan to provide a route map for the transformation that is needed.

I hope that this information is helpful.

Yours sincerely

A handwritten signature in dark ink, appearing to read 'Alexandra Howells', written in a cursive style.

ALEXANDRA HOWELLS
CHIEF EXECUTIVE

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Health and Social Care Committee

Rocio Cifuentes
Comisiynydd Plant Cymru

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Seneddlechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Seneddlechyd@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

22 Awst 2024

Annwyl Rocio

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor, ar hyn o bryd, yn cynnal gwaith craffu Cyfnod 1 ar Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), ac rydym yn awyddus i ddeall eich barn ymhellach ynghylch a ddylai dyletswyddau adrodd gorfodol gan *unigolion* ynghylch cam-drin plant yn rhywiol gael eu cynnwys yn y Bil.

Yn eich tystiolaeth ysgrifenedig, rydych yn tynnu sylw at hepgor gofyniad adrodd gorfodol i unigolion penodol roi gwybod am gam-drin plant yn rhywiol (fel y'i cynhwyswyd yn ymgynghoriad gwreiddiol Llywodraeth Cymru ar gynigion deddfwriaethol). Rydych yn cyfeirio at achos y pennaeth o ogledd Cymru a gafwyd yn euog yn ddiweddar o droseddau rhyw yn ymwneud â disgyblion fel enghraifft o ble y mae'n ymddangos, meddai, fod diffyg cydymffurfio sylweddol wedi bod â'r fframweithiau presennol, gan arwain yn uniongyrchol at niwed i'r merched ifanc hyn.

Mae'n bosibl yr hoffech ystyried yr ymateb a ddarparwyd gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol ar 6 Mehefin ynghylch pam y bu newid yn y sefyllfa ers cynigion yr ymgynghoriad ar y ddeddfwriaeth hon i fwrw ymlaen ag argymhelliad yr ymchwiliad arbenigol i gam-drin plant yn rhywiol bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dyletswyddau gorfodol i unigolion penodol i roi gwybod am gam-drin plant yn rhywiol. Fe wnaeth y Gweinidog ddweud wrth y Pwyllgor hwn

"What we have already is a duty of mandation on organisations. When we looked at the recommendation from that inquiry, we didn't feel that the recommendation around individual mandation was appropriate from the feedback that we had from our partners and stakeholders here in Wales ..."

Yn dilyn hynny, ar ein cais, darparodd y Gweinidog wybodaeth bellach ar y pwynt hwn ar 28 Mehefin.

Os hoffech chi fyfyrto ar gyfraniad diweddaraf y Gweinidog, byddem yn ddiolchgar o glywed gennych erbyn **13 Medi**, fel y gallwn ystyried eich barn pan fyddwn yn dychwelyd yn nhymor yr hydref.

Yn gywir



Sam Rowlands AS

Cadeirydd Dros Dro, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



To:
SeneddHealth@senedd.
wales

Ebost yn unig

Via email only

Dyddiad / Date: 12.9.24

Annwyl Gadeirydd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Awst 2024, yn gwahodd sylwadau pellach ar adroddiadau gorfodol, yng nghyd-destun y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd gerbron y Pwyllgor ar hyn o bryd ar gyfer gwaith craffu cam 1.

Fel y nodwyd yn eich llythyr, cyfeiriais yn fyr at y mater hwn yn fy nhystiolaeth ysgrifenedig cam 1, gan fynegi dymuniad i glywed rhagor oddi wrth y Llywodraeth ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud i "gryfhau cydymffurfiaeth â'r fframweithiau rheoleiddio presennol".

Nodaf fod y Llywodraeth ers hynny wedi rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor yn ysgrifenedig ac mewn sesiwn dystiolaeth bellach.

Mae fy swyddfa bob amser wedi ymdrin â'r ddyletswydd bresennol fel dyletswydd personol, yn yr ystyr na all sefydliad ymarfer dyletswydd ddeddfwriaethol yn gorfforol; rhaid iddo gyflawni hynny trwy ei bersonél. O ganlyniad mae ein polisi diogelu ninnau yn nodi'n glir bod gan unrhyw aelod o staff sy'n pryderu am blentyn, neu'n sy'n derbyn honiad neu ddatgeliad, gyfrifoldeb personol i fynd â'r mater hwnnw ymhellach, trwy drafodaeth gyda Pherson Diogelu Dynodedig ein sefydliad. Mae gennym hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant blynyddol ar ddiogelu i'n holl staff er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu dyletswyddau yn unol â'r polisi hwn.

Bydd **cynyddu ymwybyddiaeth** o reidrwydd yn ffactor allweddol yn llwyddiant y ddyletswydd ar lefel y sefydliad. Mae'n bwysig bod polisïau yn adlewyrchu cyfrifoldebau'r sefydliad, ond ni fydd hynny ynddo'i hun yn ddigonol i gadw plant yn ddiogel. Nid yw penodi Person Diogelu Dynodedig a thybïo y bydd eu gwaith yn cwmpasu'r mater hwn yn ddigon, gan na allan nhw ond rhoi adroddiad neu gynnig cyngor ar faterion sy'n cael eu dwyn i'w sylw. Yn hytrach, mae angen hyfforddiant rheolaidd a hyfforddiant diweddar i sicrhau bod staff newydd yn cael gwybod am



Tŷ Llewellyn/Llewellyn House
Parc Busnes Glan yr
Harbwr/Harbourside Business Park
Heol yr Harbwr/Harbourside Road
Port Talbot
SA13 1SB
01792 765600

comisiynyddplant.cymru
childrenscommissioner.wales

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

eu cyfrifoldebau a sut i'w rhoi ar waith yn ymarferol, ac i atgoffa'r staff presennol o hynny.

Gall astudiaethau achos ac enghreifftiau dienw fod yn ffordd gadarnhaol o weithio trwy'r materion hyn gyda gweithwyr proffesiynol. Efallai gallai hynny fod yn ddull gweithredu tîm newydd Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (SUSR) Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwersi a ddysgir yn sgîl adolygiadau yn cael eu mabwysiadu ledled Cymru.

Yn fy nhystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriais at achos diweddar oedd yn ymwneud â phrifathro yng Ngogledd Cymru, lle mae'n ymddangos, o'r wybodaeth gyhoeddus sydd ar gael, fod rhai aelodau o staff o bosib yn ymwybodol o bryderon ond heb wneud dim i'w cyfeirio ymlaen. Dydw i ddim am ragfarnu canfyddiadau'r Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) cyfredol yn yr achos hwnnw, ond efallai y gellid defnyddio'r enghraifft hon i ddadlau o blaid hyfforddiant gorfodol ar gyfer holl staff y sefydliadau perthnasol.

Os nad yw aelodau staff ar bob lefel yn deall natur a chwmpas eu cyfrifoldebau, mae bwlch yn y gadwyn i bob pwrpas, os nhw yw'r rhai sy'n ymwybodol o bryderon ond eu bod naill ai heb ddeall yn llawn neu'n dewis peidio â chyflawni eu cyfrifoldeb i drosglwyddo'r pryderon hyn ymlaen.

Trwy wasanaeth annibynnol cyngor a chymorth hawliau plant fy swyddfa, cawn wybod yn aml hefyd am weithwyr proffesiynol mewn amrywiaeth o sefydliadau statudol a rheng flaen sy'n credu neu'n cyfeirio, trwy gamgymeriad, at "GDPR" fel rheswm sy'n eu hatal rhag cyfeirio pryderon ymlaen. Er bod canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn glir ar y mater hwn, mae'n amlwg o adroddiadau Adolygiadau Ymarfer Plant eraill bod hwn yn fater y mae angen rhoi sylw iddo o hyd, gan fod camganfyddiad cyffredin yn parhau. Eto, rwy'n gweld rôl bosib i dîm SUSR Llywodraeth Cymru i symud y mater hwn ymlaen, efallai ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae'r wybodaeth a rannwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi pam nad ydynt am newid y ddeddfwriaeth bresennol, ond nid yw'n cyflwyno'r camau sy'n cael eu cymryd yn awr i gynyddu ymwybyddiaeth, er enghraifft. Er mwyn derbyn eu rhesymeg, byddwn yn awgrymu, â phob parch, bod angen mwy o fanylion am hyn, i'n sicrhau ni bod y cynlluniau cyfredol yn ddigonol i gadw plant yn ddiogel.



Yn gywir



Rocio Cifuentes MBE

Comisiynydd Plant Cymru



Item 2.16

Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Health and Social Care Committee

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Seneddlechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Cecile Gwilym
Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus yng Nghymru
NSPCC Cymru

22 Awst 2024

Annwyl Cecile

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor wrthi'n gwneud gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall beth yw barn yr NSPCC ynghylch a ddylid cynnwys dyletswyddau adrodd mandadol am gam-drin plant yn rhywiol gan *unigolion* yn y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i ni, mae Comisiynydd Plant Cymru yn tynnu sylw at y ffaith nad yw adrodd mandadol am gam-drin plant yn rhywiol ar gyfer unigolion penodol wedi'i gynnwys (er ei fod wedi'i gynnwys yn ymgynghoriad gwreiddiol Llywodraeth Cymru ar gynigion deddfwriaethol). Mae'n cyfeirio at achos y pennaeth o ogledd Cymru a gafwyd yn euog yn ddiweddar o droseddau rhyw yn ymwneud â disgyblion fel enghraifft o ble y mae'n ymddangos, meddai, fod diffyg cydymffurfio sylweddol wedi bod â'r fframweithiau presennol. Arweiniodd hyn yn uniongyrchol, meddai, at niwed i'r merched ifanc hyn.

Yn ystod ein cyfarfod ar 6 Mehefin, buom yn holi'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y Bil ynghylch pam y mae'r safbwynt wedi newid ers cynigion yr ymgynghoriad i fwrw ymlaen ag argymhelliad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adrodd mandadol am gam-drin plant yn rhywiol ar gyfer unigolion penodol. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor hwn:

"What we have already is a duty of mandation on organisations. When we looked at the recommendation from that inquiry, we didn't feel that the recommendation around individual mandation was appropriate from the feedback that we had from our partners and stakeholders here in Wales..."

Tudalen y pecyn 70



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Ers hynny, rydym wedi cael ~~rhagor o wybodaeth~~ ysgrifenedig ar y mater hwn gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, sy'n cyfeirio at waith yr NSPCC.

Os hoffech gyflwyno eich sylwadau ar y mater hwn, byddai'n ddefnyddiol pe gallem gael eich ymateb erbyn **12 Medi 2024** er mwyn i ni allu ei ystyried yn ein hadroddiad ar y Bil.

Yn gywir



Sam Rowlands AS

Cadeirydd Dros Dro, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 2.17



Diane Engelhardt House, Unit 2, Treglown Court, Dowlais Road, Cardiff CF24 5LQ
 Tŷ Diane Engelhardt, Uned 2, Llys Treglown, Heol Dowlais, Caerdydd CF24 5LQ
 0844 892 0290 | nspcc.org.uk

Sam Rowlands AS
 Cadeirydd Dros Dro
 Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd

Medi 2024

Annwyl Gadeirydd

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 22 Awst ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, lle'r ydych yn gofyn am farn yr NSPCC am a ddylid cynnwys dyletswydd adrodd orfodol ar unigolion yn y Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu beidio.

Mae'r NSPCC o'r farn bod adrodd cam-drin plant yn hanfodol ac yn cymell pobl sydd ag unrhyw bryderon neu'n poeni bod plant efallai'n cael eu cam-drin i estyn allan a rhannu'r wybodaeth - gyda ni drwy Linell Gymorth yr NSPCC a phartneriaid diogelu statudol mewn gofal cymdeithasol, plismona ac iechyd. Rydym eisiau gweld mwy o adrodd er mwyn gallu adnabod a chefnogi plant a phobl ifanc sy'n cael (neu mewn perygl o gael) eu cam-drin ac atal neu stopio'r cam-drin.

Fel y gwyddoch, o dan y ddyletswydd bresennol i adrodd plant mewn perygl yng Nghymru, a ddaeth i rym o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, rhaid i bartneriaid awdurdod lleol statudol adrodd i'r awdurdod lleol unrhyw amheuan bod plentyn yn cael neu mewn perygl o gael ei gam-drin, esgeuluso neu'n profi unrhyw niwed arall. Ar draws y sefydliadau partner statudol, mae'r ddyletswydd yma'n cwmpasu amheuan gweithwyr proffesiynol a hefyd os ydynt yn dyst, yn derbyn datgeliad, neu'n sylwi ar arwyddion o bob math o gam-drin neu esgeulustod. Mae'r NSPCC yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru ddadansoddi a gwerthuso effaith y ddyletswydd hon yn llawn cyn gwneud penderfyniad ar gyflwyno dyletswyddau i grwpiau ehangach o unigolion. Dylai hyn ystyried a arweiniodd y ddyletswydd sefydliadol i adrodd at fwy o adrodd, mwy o adnabod plant mewn perygl, mwy o blant yn derbyn ymateb gwell i bryderon a leisiwyd am gam-drin ac esgeulustod ac, yn y pen draw, a fu'r ddyletswydd yn effeithiol yn diogelu plant rhag cael niwed.

Yn yr NSPCC, ein blaenoriaeth yw atal plant rhag cael eu cam-drin, sicrhau y cymerir camau i'w hamddiffyn a, lle y mae cam-drin ac esgeulustod wedi digwydd, atal niwed a thrawma pellach. Rydym yn glir, os bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r drefn bresennol o adrodd gorfodol yng Nghymru i'w hymestyn i ystod ehangach o unigolion, rhaid i hyn fod yng nghydestun cymorth a buddsoddiad pellach yn y system amddiffyn plant. Mae adrodd yn hanfodol i ddatgelu cam-drin ond ni ddylai fod yn nod ynddo'i hun - mae ymateb amddiffyn plant sy'n blaenoriaethu diogelu'r plentyn neu berson ifanc yn hanfodol.

Mae'r ystyriaethau canlynol yn hanfodol i sicrhau bod adrodd yn un rhan o ymateb amddiffyn plant ehangach:

- Y prif amcan ddylai sicrhau ymateb plentyn-ganolog sy'n golygu bod plant yn derbyn y cymorth iawn i stopio'r cam-drin a dod drosto.
- Rhaid i fwy o blant sy'n dioddef neu mewn perygl o gael eu cam-drin ddod i sylw'r awdurdodau. Mae mesurau i annog adrodd yn gadarnhaol oherwydd eu

MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO

EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR

Tudalen y pecyn 72

bod yn ailadrodd i oedolion na fydd cam-drin plant yn cael ei oddef na'i anwybyddu ac i helpu i wella ymwybyddiaeth o arwyddion cam-drin.

- Os yw'r mesurau hyn yn arwain at fwy o ddatgelu ac adrodd, dylai adnoddau fod ar gael fel bod asiantaethau a gwasanaethau'n datblygu perthnasoedd adeiladol gyda phlant a theuluoedd. Ni ddylai diffyg adnoddau byth atal plant sy'n cael eu cam-drin rhag cael eu hadnabod gan yr awdurdodau, eu hamddiffyn a derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.
- Dylai pawb fod yn glir am eu rôl yn amddiffyn plant. Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant (staff neu wirfoddolwyr) fod yn glir bod cadw plant yn ddiogel rhag cam-drin yn bwysicach na dim. Rhaid i unigolion wybod beth yw eu cyfrifoldebau, deall yr arwyddion a'r pethau sy'n awgrymu cam-drin a bod yn glir beth i'w wneud os ydyn nhw'n amau cam-drin.
- Dylai gweithwyr proffesiynol hefyd dderbyn hyfforddiant i adnabod arwyddion o gam-drin neu esgeulustod yn hyderus a chywir. Mae hefyd angen iddynt adeiladu ar eu sgiliau o weithio'n 'berthynol' gyda phlant, gan gynnwys deall trawma ac effaith oedolion sy'n meithrin perthynas amhriodol â phlant ar ddealltwriaeth y plant o'r profiad hwnnw, ei adnabod fel cam-drin a'i rannu ag oedolion.
- Rhaid i sefydliadau fod yn gyfrifol os bydd unigolion sy'n gweithio i neu gyda nhw'n methu ag amddiffyn plant, a hefyd am fethiannau'r sefydliad gan gynnwys polisïau a phrosesau diogelu gwael; methu â recriwtio'r staff iawn a methu â hyfforddi a chefnogi staff yn briodol i gyflawni eu dyletswyddau i gadw plant yn ddiogel. Mae angen i hyn gael ei gefnogi gan drefn arolygu gadarn ar draws pob lleoliad.
- Rhaid i blant gael cyfle i ymgysylltu â chymorth mewn llefydd diogel heb ofni cael eu hadrodd i'r awdurdodau'n barhaus. Gallai hyn olygu cynnwys eithriadau mewn unrhyw system adrodd lle y mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda phlant, er enghraifft gwaith therapiwtig, mewn ffyrdd plentyn-ganolog a lle y gall plant aros mewn rheolaeth o'r sefyllfa. Mae Childline yn un enghraifft lle y mae'r trothwyon ar gyfer adrodd pryderon cam-drin plant yn fwriadol uchel, fel bod gan blant wasanaeth lle y maen nhw'n teimlo'n ddiogel i siarad am eu profiadau (ac eithrio sefyllfaoedd lle y mae'r camdriniwr mewn sefyllfa o bŵer, a'r cyfrinachedd hwnnw felly yn y fantol).

Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar raglen waith i gryfhau dyletswydd gweithwyr proffesiynol i adrodd, yn ei ffurf bresennol, a byddem yn annog y Pwyllgor hwn, yn ogystal â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, i barhau i fonitro cynnydd y gwaith hwn.

Gobeithio y bydd y wybodaeth yma o ddefnydd i'r Pwyllgor wrth graffu'r Mesur. Os gall yr NSPCC fod o gymorth pellach o gwbl, cofiwch gysylltu â mi.

Yn gywir

MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO **EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR**

National Society for the Prevention of Cruelty to Children (NSPCC). Noddwr Brenhinol: Ei Mawrhydi'r Frenhines. Llywydd: Ei Huchelder Brenhinol Iarlles Wessex. Sefydlwyd yn 1884. Ymgorfforwyd gan Siatr Frenhinol RC000374. Rhif elusen gofrestredig 216401 (Cymru a Lloegr) a SC037717 (Yr Alban).

National Society for the Prevention of Cruelty to Children (NSPCC). Royal Patron: Her Majesty The Queen. President: HRH The Countess of Wessex. Founded in 1884. Incorporated by Royal Charter RC000374. Registered charity number 216401 (England and Wales) and SC037717 (Scotland).



CYMRU | WALES

Diane Engelhardt House, Unit 2, Treglown Court, Dowlais Road, Cardiff CF24 5LQ
Tŷ Diane Engelhardt, Uned 2, Llys Treglown, Heol Dowlais, Caerdydd CF24 5LQ
0844 892 0290 | nspcc.org.uk

Cecile Gwilym
Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus
NSPCC Cymru/Wales

MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO
EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR

Tudalen y pecyn 74

National Society for the Prevention of Cruelty to Children (NSPCC). Noddwr Brenhinol: Ei Mawrhydi'r Frenhines. Llywydd: Ei Huchelder Brenhinol Iarllles Wessex.
Sefydlwyd yn 1884. Ymgorfforwyd gan Siatr Frenhinol RC000374. Rhif elusen gofrestredig 216401 (Cymru a Lloegr) a SC037717 (Yr Alban).

National Society for the Prevention of Cruelty to Children (NSPCC). Royal Patron: Her Majesty The Queen. President: HRH The Countess of Wessex.
Founded in 1884. Incorporated by Royal Charter RC000374. Registered charity number 216401 (England and Wales) and SC037717 (Scotland).